# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

**Dydd Mercher, 18 Mai 2011**
**Wednesday, 18 May 2011**

**Cynnwys**
**Contents**

3 Teyrngedau i’r Cyn-Lywydd—Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas
Tributes to the Former Presiding Officer—The Rt Hon the Lord Elis-Thomas

13 Datganiad gan y Prif Weinidog am ei Benodiadau i’r Cabinet
Statement by the First Minister on his Cabinet Appointments

32 Cynnig i Benodi’r Pwyllgor Busnes
Motion to Appoint the Business Committee

32 Cynnig i Gymeradwyo Busnes y Cyfarfod Llawn ar gyfer Dydd Mercher, 25 Mai 2011
Motion to Approve Plenary Business on Wednesday, 25 May 2011

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.
In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the National Assembly for Wales to order.

## Teyrngedau i'r Cyn-Lywydd—Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas
## Tributes to the Former Presiding Officer—The Rt Hon the Lord Elis-Thomas

**Arweinydd yr Wrthblaid (Paul Davies):** Mae'n bleser mawr, ar ran yr wrthblaid, i dalu terynged i Dafydd Elis-Thomas am ei gyfraniad yn ystod ei gyfnod fel Llywydd yn y Cynulliad. Yr oeddwn yn siarad â ffrind rai diwrnodau yn ôl, a phan ddywedais wrtho fy mod yn mynd i gael y cyfle i dalu teyrnged i'n cyn-Lywydd, atebodd nad oedd yn sylweddoli ei fod wedi marw. Fodd bynnag, mae Dafydd wedi bod yn Lywydd ardderchog dros y 12 mlynedd diwethaf, a byddai neb gwell wedi gallu helpu datblygu'r sefydliad hwn, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Mae wedi dod â dwyster i'r rôl ac wedi sicrhau bod enw da i'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt, hyd yn oed.

**The Leader of the Opposition (Paul Davies):** It is a great pleasure, on behalf of the opposition, to pay tribute to Dafydd Elis-Thomas for his contribution during his tenure as the Presiding Officer of the Assembly. I was speaking to a friend some days ago and when I told him that I would have an opportunity to pay tribute to our former Presiding Officer, he answered that he had not realised that he had died. Nevertheless, Dafydd has been a superb Presiding Officer over the past 12 years, and we could not have had anyone better to help us to develop this institution, particularly in the early days. He has brought gravity to the role and has ensured that the National Assembly has a good reputation in Wales, the United Kingdom, and beyond.

Ni all unrhyw un amau ei angerdd am y rôl a'i ymroddiad i'r sefydliad hwn. Yn sicr, mae wedi gadael marc ar y lle hwn. Yn y blynyddoedd i ddod, pan fydd pobl yn edrych yn ôl ar hanes y sefydliad hwn, bydd ei enw yn gysylltiedig â sut aeddfedodd y Cynulliad yn y blynyddoedd cynnar. Mae'n amlwg bod Dafydd wedi cael effaith bositif enfawr ar ddemocratiaeth yng Nghymru, a bydd yn cael ei gofio fel person a chwaraeodd ran allweddol yn natblygiad y Cynulliad Cenedlaethol. Yr oedd yn hynod o bwysig cael rhywun gyda'i brofiad gwleidyddol a chyfansoddiadol yn cadeirio sefydliad democrataidd ifanc fel hwn.

No-one could doubt his passion for the role or his commitment to this institution. He has certainly left his mark on this place. In years to come, when people look back at the history of this institution, his name will be linked with the maturing of the Assembly in the early years. It is obvious that Dafydd has had a hugely positive impact on democracy in Wales, and he will be remembered as someone who played a crucial role in the development of the National Assembly. It was extremely important to have someone with his political and constitutional experience chairing a young democratic institution such as this one.

Bydd Aelodau Cynulliad presennol—a chyn-Aelodau, mae'n siwr—yn dadlau nad ydynt bob amser wedi cael eu trin yn deg gan Dafydd a'u bod yn anhapus gyda rhai o'i benderfyniadau, ond credaf ei fod, bob amser, wedi ceisio delio gyda phawb yn gyfartal ac yn deg, ond yn gadarn. Yr wyf yn sicr y bydd pawb yn cytuno y byddwn yn gweld eisiau ei hiwmor, ei steil unigol a'i

Current Assembly Members—and former Assembly Members, I am sure—will argue that they were not always treated fairly by Dafydd and that they were unhappy with some of his decisions, but I believe that he has always tried to deal with everyone equally and fairly, but firmly. I am sure that everyone would agree that we will miss his humour, his individual style and his panache

*panache* o’r gadair. Dymunaf bob llwyddiant iddo wrth iddo symud ymlaen i wneud pethau eraill, beth bynnag fo’r pethau hynny. Fodd bynnag, mae un peth yn amlwg: bydd yn parhau i fod yn wyneb cyfarwydd iawn yng ngwleidyddiaeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod.

in the chair. I wish him every success as he moves on to other things, whatever they may be. However, one thing is certain: he will continue to be a very familiar face in Welsh politics in years to come.

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Ategaf y sylwadau am gyfraniad pwysig a sylweddol Dafydd Elis-Thomas fel Llywydd y Cynulliad o’r dyddiau cynnar yn 1999, pan oeddem yn yr hen Siambr, hyd at 2011. Yn ystod y 12 mlynedd hwnnw, mae’r Cynulliad wedi cael ei drawsnewid yng ngolwg pobl Cymru, ac mae llawer o’r diolch am hynny i Dafydd.

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** I endorse those comments about the important and significant contribution made by Dafydd Elis-Thomas as the Presiding Officer of the Assembly from the early days in 1999, when we were in the old Chamber, through to 2011. During that 12-year period, the Assembly has been transformed in the eyes of the people of Wales, and we have Dafydd to thank for much of that.

Mae rhai ohonom yn cofio’r dyddiau cynnar yn yr hen Siambr, pan oedd y corff hwn yn gorff eithaf bregus ac wedi’i ethol gan fwyafrif bach iawn o bobl Cymru. Cafodd Dafydd sawl prawf yn y dyddiau cynnar hynny, ond llwyddodd i’w goresgyn ac ennyn hyder pobl Cymru yn y corff hwn. Erbyn hyn, fel y gwyddom, mae’r corff senddol a’r Llywodraeth wedi gwahanu, ond yn y dyddiau hynny, yr un corff oeddem ac yr oedd yn frwydr barhaol i’w gwahanu. Gwn ei fod wedi brwydro’n galed iawn i sefydlu annibyniaeth y corff seneddol, ac yn y dyddiau cynnar yr oedd hynny’n frwydr bwysig iawn iddo ef a ninnau ei hennill. Datblygodd y corff wedyn yn gorff a oedd yn ennyn parch pobl Cymru.

Some of us recall those early days in the old Chamber, when this institution was quite a fragile creature, which had been elected by a very narrow majority of the Welsh electorate. Dafydd faced a number of tests in those early days, but he managed to overcome them in a way that engendered confidence in this institution among the people of Wales. As we know, the legislature and the Government have now separated, but in those days we were a single body and there was a constant battle to separate both sides. I know that he fought extremely hard to establish the independence of legislature, and, in those early days, it was very important for him and for us to win that battle. The institution then developed into one that engendered the respect of the people of Wales.

Mae hefyd wedi cynrychioli’r corff y tu allan i’r Cynulliad gyda graen a *panache*, fel y dywedwyd gan Paul. Mae wedi llwyddo i greu parch tuag at y corff hwn ymhlith pobl Cymru, ac yr oedd hynny’n bwysig o ran sicrhau llwyddiant yn y refferendwm.

He has also represented this institution outside these walls with some skill and, as Paul said, with some panache. He engendered respect for this institution in the eyes of the people of Wales, which was an important factor in our success in the referendum.

Bu i Paul sôn am y ffaith ei fod wedi cadeirio ein Cyfarfodydd Llawn. Gwn nad oedd hynny’n rhwydd ar adegau oherwydd yr oedd yn rhaid inni geisio torri ein cwys ein hunan a pheidio â dilyn trefn San Steffan yn slafaidd. Yr oedd Dafydd yn ymwybodol iawn—fel y mae o hyd—nad corff traddodiadol gyda Llywodraeth a gwrthblaid sydd yma; mae nifer o wahanol bleidiau. Yr ydym yn gorff sydd llawer iawn yn fwy cynrychioliadol yn

Paul mentioned that he chaired our Plenary sessions. I know that that was not always easy, because we had to plough our own furrow and not slavishly follow the Westminster model. Dafydd was very aware—as he still is—that this is not a traditional institution with a Government and an opposition; we have a number of different parties here. We are a far more representative institution in the sense that there are a

yr ystyr bod nifer o wrthbleidiau yn ogystal â'r Llywodraeth. Cafwyd cyfnodau o Lywodraeth glymbleidiol a gwn fod hynny wedi bod yn brawf o ran sicrhau tegwch i bob Aelod. Mae wedi caniatáu i'r corff hwn ddatblygu ei steil ei hun o ran sut y mae Aelodau yn ymagweddu a sut y mae pobl Cymru yn ein gweld.

Hoffwn ddweud gair byr am ei gyfraniad yn y trydydd Cynulliad, gan mai dyma un o uchafbwyntiau ei yrfa—y ffordd y bu iddo lywio'r syniad o gorff seneddol a oedd yn ennyn parch pobl Cymru a arweiniodd at sicrhau'r fuddugoliaeth ysgubol yn y refferendwm. Fel llais y corff seneddol, yn ein cynrychioli ni i gyd, gwnaeth gyfraniad helaeth at y llwyddiant hwnnw. Pan fydd y llyfrau hanes yn cael eu hysgrifennu, yr wyf yn siŵr y bydd y cyfraniad hwnnw yn un o uchafbwyntiau ei gyfnod fel Llywydd. Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn falch ein bod wedi cael Dafydd fel Llywydd am 12 mlynedd. Dywedodd Paul y bydd yn symud ymlaen i bethau eraill. Gobeithiaf yn fawr, Dafydd, y byddi di, oherwydd mae gennyt eto gyfraniad sylweddol i wneud i wleidyddiaeth Cymru, ond efallai mewn ffordd ychydig yn wahanol. Diolch yn fawr iawn i ti.

**Kirsty Williams:** Thank you for the opportunity to say a few words about our colleague, the previous Presiding Officer—Baron Elis-Thomas of Nant Conwy, Dafydd Êl, Llywydd, PO, Assembly Member: he has had many titles, but there is certainly only one of him. All of us here at this National Assembly for Wales owe him a great deal of respect and thanks for the way that he conducted himself as our Presiding Officer over the past 12 years, from those early extremely turbulent days for the National Assembly—which Ieuan Wyn Jones has just referred to—which he steered us through, to his foresight during the last Assembly to recognise, in advance of the parliamentary scandals that rocked Westminster, the need to ensure a rigorous standards regime at the National Assembly with a system of expenses and allowances that was robust and open to scrutiny. I think that that insulated this institution from many of the difficulties that engulfed other institutions not a million miles away.

number of opposition parties as well as the Government. There have also been periods of coalition Government, and I know that that was a test in ensuring fairness for all Members. He has allowed this institution to develop its own style with regard to how we as Members behave and how the people of Wales see us.

I would like to say a brief word on his contribution during the third Assembly, as that was one of the highlights of his career—the way in which he steered the concept of a parliamentary body that gained the respect of the people of Wales and then led to the excellent victory in the referendum. In representing the legislature, and all of us, he made a substantial contribution to that success. When the history books come to be written, I am sure that that contribution will be one of the highlights of his tenure as Presiding Officer. I am sure that we all feel proud to have had Dafydd as Presiding Officer for 12 years. Paul said that he would be moving on to other things. I hope very much, Dafydd, that that is the case because you have a significant contribution to make to Welsh politics in future, albeit in a slightly different role. Thank you very much.

**Kirsty Williams:** Diolch am y cyfle i ddweud ychydig eiriau am ein cydweithiwr, y cyn-Lywydd—y Barwn Elis-Thomas o Nant Conwy, Dafydd Êl, y Llywydd, Aelod Cynulliad: mae wedi cael nifer o deitlau, ond yn sicr dim ond un ohono sydd. Mae pob un ohonom yma yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei barchu ac yn ddiolchgar iddo am y ffordd y mae wedi ymddwyn fel ein Llywydd dros y 12 mlynedd diwethaf, ers dyddiau cythryblus cynnar y Cynulliad Cenedlaethol—y mae Ieuan Wyn Jones newydd gyfeirio atynt—y gwnaeth ein llywio drwyddynt, at ei weledigaeth yn ystod y Cynulliad diwethaf i gydnabod, cyn y sgandalau seneddol a siglodd San Steffan, yr angen i sicrhau cyfundrefn safonau llym yn y Cynulliad Cenedlaethol gyda system treuliau a lwfansau a oedd yn gadarn ac yn agored i fod yn destun gwaith craffu. Credaf fod hynny wedi gwarchod y sefydliad hwn rhag llawer o'r anawsterau sydd wedi llyncu sefydliadau eraill nad ydynt filiwn o filltiroedd i ffwrdd.

Dafydd, I am sure that your role as Presiding Officer over the past 12 years was instrumental in our ability to win that referendum in March by establishing this institution as one in which the people of Wales could have confidence. It is not just here in the Chamber that that work was recognised. Your determination and that of your officials to take this National Assembly out to the people of Wales ensured that it was not just an institution based in Cardiff bay, but was one with a significant education programme that reached out to schoolchildren the length and breadth of our nation and had a significant presence in such national institutions as the Royal Welsh Show and the National Eisteddfod. That meant that we could be at those important cultural venues talking about the work of the Assembly.

Dafydd, rwy'n siŵr bod eich rôl fel Llywydd dros y 12 mlynedd diwethaf wedi bod yn allweddol yn ein gallu i ennill y refferendwm ym mis Mawrth gan sefydlu'r corff hwn fel un y gall pobl Cymru gael ffydd ynddo. Nid dim ond yma yn y Siambr hon y cafodd y gwaith hwnnw ei gydnabod. Mae eich agwedd benderfynol chi a'ch swyddogion tuag at fynd â'r Cynulliad Cenedlaethol allan i bobl Cymru wedi sicrhau nad oedd yn sefydliad wedi'i leoli ym mae Caerdydd yn unig, ond yn un â rhaglen addysg arwyddocaol a oedd yn ymestyn allan at blant ysgol ar hyd a lled ein cenedl a oedd â phresenoldeb sylweddol mewn sefydliadau cenedlaethol megis Sioe Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd hynny'n golygu y gallem fod yn y lleoliadau diwylliannol pwysig hynny yn sôn am waith y Cynulliad.

Of course, over the years, some Assembly Members have fallen foul of your rulings. I do not think that anyone could ever accuse the former Presiding Officer of being particularly bothered with dotting every i and crossing every t of the Standing Orders. However, he recognised that there was an ebb and flow to politics. There is a skill to handling debates in this Chamber and to creating a spectacle, which is what politics should often be about, particularly in a national debating chamber, rather than being too bogged down by the strictures of rules and regulations.

Wrth gwrs, dros y blynyddoedd, mae rhai o Aelodau'r Cynulliad wedi mynd yn groes i'ch dyfarniadau. Nid wyf yn credu y gallai unrhyw un gyhuddo'r cyn-Lywydd o boeni'n ormodol am fân fanylion y Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod llanw a thrai i wleidyddiaeth. Mae dawn i ymdrin â dadleuon yn y Siambr hon ac i greu sioe, sef yr hyn y dylai gwleidyddiaeth fod yn aml, yn enwedig mewn siambr ddadlau genedlaethol, yn hytrach na chael eich llethu'n ormodol gan gyfyngiadau rheolau a rheoliadau.

I owe you a personal debt for the kindness that you have shown me since we spent that fateful night together. [*Laughter.*] I watched a programme on BBC Wales last night that recounted the journey taken by our nation in recent years. It showed the televised coverage of the referendum in 1997. The former Presiding Officer and I were not on television together that evening, but we did spend the evening together in the Radio Wales studios. I recount that when the final result from Carmarthenshire was announced, the former Presiding Officer was in a desperate rush to get to the party at a hotel in central Cardiff. Therefore, I offered to give him a lift in my car. Having run to the car park, I pulled up outside the BBC building in my very old, battered blue mini, and he asked me, 'Is that

Rwy'n ddiolchgar iawn ichi am y caredigrwydd a ddangoswyd gennych ers inni dreulio'r noson dyngedfennol honno gyda'n gilydd. [*Chwerthin.*] Gwyliais raglen ar BBC Wales neithiwr a oedd yn adrodd y daith a gymerodd ein cenedl yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn dangos y darllediad teledu o'r refferendwm ym 1997. Nid oedd y cyn-Lywydd a mi ar y teledu gyda'n gilydd y noson honno, ond gwnaethom dreulio'r noson gyda'n gilydd yn stiwdios Radio Wales. Rwy'n cofio'r adeg pan gyhoeddwyd y canlyniad terfynol o sir Gaerfyrddin, roedd y cyn-Lywydd mewn brys mawr i fynd i'r parti mewn gwesty yng nghanol Caerdydd. Felly, cynigiais roi lifft iddo yn fy nghar. Ar ôl rhedeg i'r maes parcio, parciais y tu allan i adeilad y BBC yn fy hen gar mini glas

the car?' Since then—thanks to Andy—you have been entitled to far greater and more luxurious transport.

tolciog, a gofynnodd i mi, 'Ai hwn yw'r car?'. Ers hynny—diolch i Andy—rydych wedi cael cludiant llawer gwell a mwy moethus.

Over the last 12 years you have shown me, and my family, immense personal kindness, for which I am grateful. I am also grateful for the guidance that you have shown me regarding how to conduct myself in the Chamber. I think that we have fallen out only once. Only once have you threatened to kick me out, and even on that occasion we eventually managed to reach a compromise about which of us was right.

Dros y 12 mlynedd rydych wedi dangos caredigrwydd personol dirfawr i mi a'm teulu, yr wyf yn ddiolchgar iawn amdano. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am yr arweiniad yr ydych wedi'i ddangos i mi ynglŷn â sut i ymddwyn yn y Siambr. Rwy'n credu mai dim ond unwaith yr ydym wedi cweryla. Dim ond unwaith yr ydych wedi bygwth fy nhaflu allan, a hyd yn oed yr adeg honno, gwnaethom, yn y pen draw, lwyddo i gyfaddawdu ynghylch pa un ohonom oedd yn iawn.

On behalf of the Welsh Liberal Democrat group, I thank you most sincerely for the role that you have played in developing the institution of the National Assembly for Wales, and for your personal kindness to me and to members of my group. Many years ago, when you took your seat in the House of Commons, you were described as the baby of the House. Dafydd, like a good red wine, which I think you enjoy from time to time, you have matured into what we could all agree is a father-of-the-House role at the National Assembly. We look forward to seeing what the next chapter of your political career will entail.

Ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, hoffwn ddiolch o waelod calon ichi am y rôl yr ydych wedi'i chwarae o ran datblygu sefydliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac am eich caredigrwydd personol i mi ac aelodau o'm grŵp. Flynyddoedd lawer yn ôl, pan wnaethoch gymryd eich sedd yn Nhŷ'r Cyffredin, cawsoch eich disgrifio fel babi'r Tŷ. Dafydd, fel gwin coch da, yr wyf ar ddeall y byddwch yn ei fwynhau o bryd i'w gilydd, rydych wedi aeddfedu i'r hyn y gallem i gyd gytuno arno sef tad y Tŷ yn y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym yn edrych ymlaen at weld beth ddaw yn mhennod nesaf eich gyrfa wleidyddol.

**The Minister for Business, Enterprise and Technology (Edwina Hart):** I have had the privilege of working with Lord Elis-Thomas for the last 12 years. Saying that we have been working together may be an odd expression, as I have always been a member of the Government, but I have always thought that we had a common aim, namely devolution and the development of this institution, which has always been the marker for Dafydd Elis-Thomas. Devolution has developed from the referendum, to which Kirsty referred, when she had been riding around in her blue mini, to our present situation with the recent referendum result. I know that that was always Dafydd's vision for this legislature.

**Y Gweinidog dros Fusnes, Menter a Thechnoleg (Edwina Hart):** Rwyf wedi cael y fraint o weithio gyda'r Arglwydd Elis-Thomas am y 12 mlynedd diwethaf. Efallai bod dweud ein bod wedi bod yn gweithio gyda'n gilydd yn ymadrodd rhyfedd, gan fy mod bob amser wedi bod yn aelod o'r Llywodraeth, ond rwyf bob amser wedi teimlo bod gennym nod cyffredin, sef datganoli a datblygu'r sefydliad hwn, sef y nod erioed i Dafydd Elis-Thomas. Mae datganoli wedi datblygu ers y refferendwm, y cyfeiriodd Kirsty ato, pan roedd hi'n arfer gyrru o amgylch yn ei mini glas, i'n sefyllfa bresennol gyda chanlyniad y refferendwm diweddar. Gwn mai dyna oedd gweledigaeth Dafydd bob amser ar gyfer y ddeddfwrfa hon.

I knew Dafydd before, in another life. Like me, Dafydd used to sit—and I apologise to my colleagues in the trade unions movement

Roeddwn i'n adnabod Dafydd o'r blaen, mewn cyfnod arall o'm bywyd. Fel fi, roedd Dafydd yn arfer eistedd—ac rwy'n

for saying this—through some very boring discussions and debates at the Wales TUC conferences. Dafydd was a regular attendee at those conferences and I got to know him. His love for the trade union movement sprang from the fact that we were always quite committed devolutionists. The trade union movement often spoke about devolution even before the referendum in the late 1990s.

ymddiheuro i'm cydweithwyr yn y mudiad undebau llafur am ddweud hyn—drwy rai trafodaethau a dadleuon diflas iawn yng nghynadleddau TUC Cymru. Roedd Dafydd yn mynychu'r cynadleddau hynny'n rheolaidd a deuthum i'w adnabod. Roedd ei gariad at y mudiad undebau llafur yn deillio o'r ffaith ein bod bob amser yn ddatganolwyr ymroddedig. Roedd y mudiad undebau llafur yn aml yn siarad am ddatganoli hyd yn oed cyn y refferendwm yn niwedd y 1990au.

As Ieuan Wyn said, I worked with Dafydd through the difficult times in the National Assembly. It was difficult when we first came here as the body corporate. Dafydd strove to ensure that there was a parliamentary side and a Government side. Let us be under no illusion, that was quite difficult. At one time, I was responsible for Dafydd Elis-Thomas's budget, and we used to have interesting discussions about the divvying up of the budgets of the parliamentary side, what the Government did, and how the budget could be utilised. However, we came to successful accommodations on those particular issues.

Fel y dywedodd Ieuan Wyn, gweithiais gyda Dafydd drwy adegau anodd yn y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yn anodd pan ddaethom yma gyntaf fel y corff corfforaethol. Ymdrechodd Dafydd i sicrhau bod yna ochr seneddol ac ochr y Llywodraeth. Ni ddylem fod o dan gamargraff o gwbl, roedd yn gyfnod eithaf anodd. Ar un adeg, roeddwn yn gyfrifol am gyllideb Dafydd Elis-Thomas, ac roeddem yn arfer cael trafodaethau diddorol am rannu cyllidebau ar yr ochr seneddol, yr hyn a wnâi'r Llywodraeth, a sut y gellid defnyddio'r gyllideb. Fodd bynnag, roeddem yn llwyddiannus ar y materion penodol hynny.

We have had all of our traumas around government, but Dafydd and I have lived through one of the greatest traumas, namely the establishment of this beautiful building. We are all sat in it now and people in Wales say, 'Isn't it remarkable?', and 'Isn't it wonderful?', but I can well remember the discussions that we had about the building: whether we should have it or not, whether we should have an extension on stilts, what we would do with architects. But, throughout, we just thought that we must have a building that is fit for purpose, iconic and one that people will love. When people come from across Wales to see this building, that is what they will say. When the history books will be written on this, they will talk about his involvement in the building and his single-minded determination to see that project through, which is a tribute in itself.

Rydym wedi cael llawer o drawma ynghylch y llywodraeth, ond mae Dafydd a mi wedi byw drwy un o'r trawma mwyaf, sef sefydlu'r adeilad hardd hwn. Rydym i gyd yn eistedd ynddo yn awr ac mae pobl yng Nghymru yn dweud, 'Onid yw'n rhyfeddol?', ac 'Onid yw'n wych?', ond rwy'n cofio'n iawn y trafodaethau a gawsom am yr adeilad: p'un a ddylem ei gael neu beidio, p'un a ddylem gael estyniad ar stiltiau, beth fyddem yn ei wneud gyda phenseiri. Ond, drwy gydol yr amser, roeddem yn credu bod yn rhaid inni gael adeilad oedd yn addas at y diben, yn eiconig ac yn un y byddai pobl wrth eu bodd ag ef. Pan fydd pobl yn dod o bob rhan o Gymru i weld yr adeilad hwn, dyna beth maent yn ei ddweud. Pan fydd y llyfrau hanes yn cael eu hysgrifennu ar hyn, byddant yn sôn am ei ymwneud â'r adeilad a'i benderfyniad diwyro i weld diwedd i'r prosiect, sy'n deyrnged ynddi'i hun.

1.45 p.m.

A lot is made of Lord Dafydd Elis-Thomas's style; you must have style and panache because you will have people who will agree

Mae llawer yn cael ei wneud o steil yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas; rhaid ichi gael steil oherwydd bydd gennych bobl a

with you and some who will disagree with you, because life is not straightforward. When you are chairing something and you have some difficult characters in the group—there are probably some in this Chamber, although I do not count myself among them—you knew there would be disagreements, but at the end of the day you always knew where the Presiding Officer was; the Presiding Officer was on the side of democracy and of having a legislature in Wales that represented the views of the Welsh nation and could put in force the legislation that was required. That is a great tribute in itself.

fydd yn cytuno â chi a rhai a fydd yn anghytuno â chi, oherwydd nid yw bywyd yn syml. Pan oeddech yn cadeirio rhywbeth ac roedd gennych rai cymeriadau anodd yn y grŵp—mae'n debyg bod rhai yn y Siambr hon, er nad wyf yn cyfrif fy hun yn eu plith—fe wyddech y byddai anghytuno, ond ar ddiwedd y dydd roeddech bob amser yn gwybod ble fyddai'r Llywydd; roedd y Llywydd ar ochr democratiaeth ac o blaid cael deddfwrfa yng Nghymru a oedd yn cynrychioli barn y genedl Gymreig ac a allai roi grym i'r ddeddfwriaeth a oedd yn ofynnol. Mae hynny'n deyrnged wych ynddi'i hun.

You will obviously be here with us as a Member and I look forward to your contributions as a Member. I look forward to the first time that the current Presiding Officer will tell you off and tell you that you cannot say something; that will be quite interesting from your perspective because it is quite different when you are on the other side. It has been a pleasure working with you. I know that you are well-regarded across Wales. I have enjoyed particularly your humour and also your compassion about issues. The way that you have dealt with a great number of Members when they have had personal issues and problems has been a credit to you. The world does not see that, but those of us who have dealt with you in that way know about it. So, it is a tribute to you not just as a Presiding Officer, but as a human being and a great elected representative.

Byddwch yn amlwg yma gyda ni fel Aelod ac edrychaf ymlaen at eich cyfraniadau fel Aelod. Edrychaf ymlaen at y tro cyntaf y bydd y Llywydd presennol yn dweud y drefn wrthych ac yn dweud wrthych na allwch ddweud rhywbeth; bydd hynny'n eithaf diddorol o'ch safbwynt chi oherwydd mae'n eithaf gwahanol pan ydych chi ar yr ochr arall. Mae wedi bod yn bleser gweithio gyda chi. Gwn eich bod yn uchel eich parch ledled Cymru. Rwyf wedi mwynhau eich hiwmor a hefyd eich trugaredd am faterion. Mae'r ffordd yr ydych wedi delio â nifer fawr o Aelodau pan fyddant wedi gorfod delio â materion personol a phroblemau wedi bod yn gredyd i chi. Nid yw'r byd yn gweld hynny, ond mae'r rheini ohonom sydd wedi delio â chi yn y modd hwnnw yn gwybod. Felly, mae'n deyrnged i chi nid yn unig fel Llywydd, ond fel person a chynrychiolydd etholedig gwych.

**Nick Ramsay:** I am pleased to contribute to this. The fact that this is the first time that we have had to pay tributes to a Presiding Officer shows how long you were in this role, Dafydd, and it shows in many respects what a successful tenure you had in guiding the Assembly through what was a difficult transition time in the early days, and a time when it was not always clear what the Assembly's remit was or what it might ultimately turn into.

**Nick Ramsay:** Rwy'n falch o gael cyfrannu at hyn. Mae'r ffaith mai dyma'r tro cyntaf inni orfod talu teyrngedau i Lywydd yn dangos pa mor hir yr oeddech yn y rôl hon, Dafydd, ac mae'n dangos mewn sawl ffordd y ddaliadaeth lwyddiannus a gawsoch wrth arwain y Cynulliad drwy gyfnod o drawsnewid anodd yn y dyddiau cynnar, a chyfnod pan nad oedd wastad yn glir beth oedd cylch gwaith y Cynulliad na'r hyn y gallai fod yn y pen draw.

I want to speak briefly about an occasion some years back, before I was an Assembly Member, when I was invited into the Members' tearoom. I had a friend with me at the time and as I looked at my friend I saw

Rwyf am siarad yn fyr am achlysur rai blynyddoedd yn ôl, cyn i mi ddod yn Aelod Cynulliad, pan gefais wahoddiad i ystafell de'r Aelodau. Roedd ffrind gyda mi ar y pryd ac wrth imi edrych ar fy ffrind gwelais ei fod

that he had gone as white as a sheet. He said, 'It's him', while pointing behind me, and then said, 'It's the Lord'. It sounded almost biblical, but I quickly realised that there must be something else going on. I turned around and there indeed was the Lord Elis-Thomas. It showed me back then what one of your great strengths has been, that is, your ability to reach out beyond this place and beyond the bubble that we too often live and work within to people outside politics. My friend did not know much about politics and the fact that he recognised you as a face of devolution and as a face of the Assembly at that point showed just what an important role you had.

wedi mynd yn wyn fel y galchen. Dywedodd, 'Dyna fe', wrth bwyntio y tu ôl imi, ac yna dywedodd, 'Yr Arglwydd'. Roedd yn swnio braidd yn feiblaidd, ond deallais yn gyflym fod rhywbeth arall yn digwydd. Wrth droi o'm cwmpas, sylweddolais, yn wir, mai'r Arglwydd Elis-Thomas oedd yno. Dangosodd hynny imi bryd hynny beth oedd, ac yw, un o'ch cryfderau mawr, sef eich gallu i gyrraedd pobl y tu hwnt i wleidyddiaeth, y tu hwnt i'r lle hwn a thu hwnt i'r swigen rydym yn amlach na pheidio'n byw ac yn gweithio ynddi. Nid oedd fy ffrind yn gwybod llawer am wleidyddiaeth ond dengys y ffaith ei fod wedi eich adnabod fel wyneb datganoli ac wyneb y Cynulliad ar y pwynt hwnnw gymaint oedd pwysigrwydd eich rôl.

You and I and our good friend, the dear, late Brynle Williams, used to spend time in the Members' tearoom during breaks in business chatting to each other. Kirsty Williams went through the different titles that you are known by, but if Brynle were here today, he would probably have used his favourite one, which was 'King Ferret', which he used to say with great affection. The fact is, Dafydd, that putting aside the political differences that we will necessarily have, and the robust discussions that we will continue to have across the parties, some people play an important stabilising role within Welsh politics and within devolution, and you are clearly one of those.

Roeddech chi a minnau a'n cyfaill da ac annwyl, y diweddar Brynle Williams, yn arfer treulio amser yn ystafell de'r Aelodau yn ystod egwyl ym musnes y Cynulliad yn sgwrsio â'n gilydd. Aeth Kirsty Williams drwy'r teitlau gwahanol rydych yn cael eich galw, ond petai Brynle yma heddiw, byddai fwy na thebyg wedi defnyddio ei hoff un, sef 'King Ferret', a ddefnyddiodd yn llawn hoffter. Y ffaith yw, Dafydd, gan roi o'r neilltu ein gwahaniaethau gwleidyddol anochel, a'r trafodaethau cadarn y byddwn yn parhau i'w cael ar draws y pleidiau, mae rhai pobl yn chwarae rôl bwysig wrth sefydlogi gwleidyddiaeth Cymru ac o fewn datganoli, ac rydych yn amlwg yn un o'r rheini.

I hope that you will enjoy your time on—well, I was going to say the Labour benches, but I see that there has been a transition and movement on the benches so that you are back with your colleagues. [*Laughter*.] I am sure that you will continue to impart the same sort of advice, guidance and wisdom on matters of procedure and Standing Orders that you have dispensed so very well over the last decade. I am sure that all of us—older Members and newer Members—will continue to benefit from that. Good luck to you in the future in whatever you decide to do.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich amser ar—wel, roeddwn yn mynd i ddweud y meinciau Llafur, ond gwelaf fod yna drawsnewidiad a symudiad wedi bod ar y meinciau fel y gallwch ddychwelyd at eich cydweithwyr. [*Chwerthin*.] Rwy'n siŵr y byddwch yn parhau i gynnig yr un math o gyngor, arweiniad a doethineb ar faterion yn ymwneud â gweithdrefn a Rheolau Sefydlog ag yr ydych wedi'i ddosbarthu dros y degawd diwethaf. Rwy'n siŵr y bydd pob un ohonom—yn Aelodau hen a newydd—yn parhau i elwa o hynny. Pob lwc i chi yn y dyfodol ym mha beth bynnag y penderfynwch ei wneud.

**Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas:** Diolch yn fawr, Lywydd, am eich caredigrwydd yn cymryd amser o Gyfarfod Llawn y Cynulliad ar gyfer y teyrngedau hyn.

**Lord Dafydd Elis-Thomas:** Thank you very much, Presiding Officer, for your kindness in taking time during an Assembly Plenary meeting for these tributes.

Flynyddoedd maith yn ôl pan yr oeddwn yn dychmygu bywyd fel ysgolhaig, treuliais lawer o amser yn astudio y cywyddau marwnad Cymraeg o'r oesoedd canol a chyfnod y dadeni. Yr oedd y rheini fel arfer yn cael eu paratoi ar gyfer pobl a fu farw ac yr oeddynt yn cael eu datgan i'r teulu ryw dri mis ar ôl yr angladd. Ymhlith y cywyddau yr oeddwn wedi eu darllen ar yr adeg honno yn y llawysgrifau yr oedd nifer a oedd wedi eu cyfansoddi gan feirdd i feirdd eraill a oedd dal yn fyw. Yr oedd y rheini yn aml yn fwy difyr a digrif, yn amlwg, a hefyd yn fwy canmoliaethus na'r cywyddau a oedd wedi eu darparu ar gyfer pobl a fu farw. Felly, yr wyf yn teimlo heddiw fy mod rywfodd wedi gwneud cylch cyfan, gan fy mod yn eistedd yn fy hoff adeilad yn y byd ac yn clywed pobl yn dweud pethau da amdanaf. Felly, ni fydd yn rhaid i chi ddod i'r angladd na'r cwrdd coffa.

Many years ago when I imagined living my life as an academic, I spent much time studying *cywyddau*, the Welsh elegies from the middle ages and the renaissance period. They were usually prepared for people who had passed away and were read to the family some three months after the funeral. Among those elegies that I read at that time in the manuscripts were a number that had been composed by poets to other poets who were still alive. They were often more interesting, obviously often funnier and were also often more complimentary than the *cywyddau* about people who had already passed away. Therefore, I feel that today I have somehow come full circle, in that I am sitting in my favourite building in the world and hearing people saying kind things about me. Therefore, you will not have to come to the funeral or the memorial service.

Diolch i Paul am ei sylwadau caredig, i Ieuan, fy arweinydd, am ei eiriau caredig, i Kirsty am ei sylwadau personol a hoffus, i Edwina, Gweinidog sydd wedi gweithio'n agos â mi, fel y clywsoch, ynglŷn â'r adeilad hwn a chyn hynny, ac i Nick, arwr datganoli i lawer ohonom ar ôl y refferendwm. Diolch iddo am ei gyfraniad.

I thank Paul for his kind comments, Ieuan, my leader, for his kind words, Kirsty for her personal and affectionate comments, Edwina, a Minister who has worked closely with me, as you have already heard, in relation to this building and before that, and Nick, the hero of devolution for many of us following the referendum. I thank him for his contribution.

The great thing about sitting where you are sitting, Presiding Officer, is that the light occasionally shines on you from heaven. It is almost doing so as I speak. I keep getting confused between 'concave' and 'convex', but the secret is that the sunlight is dispersed. It does not come straight down, but falls upon the beautiful Presiding desk, glints off the mace and then, if I my say so, on the hair of our current Presiding Officer. [*Laughter*.] I wish you well. We have worked together closely for 12 years in different capacities and I know that the ship is not only safe, but will sail well beyond where it has sailed already.

Y peth gwych am eistedd lle'r ydych yn eistedd, Lywydd, yw bod y goleuni o bryd i'w gilydd yn tywynnu arnoch o'r nefoedd. Mae bron yn gwneud hynny wrth imi siarad. Rwy'n parhau i gael fy nrysu rhwng 'ceugrwm' ac 'amgrwm', ond y gyfrinach yw bod golau'r haul yn cael ei wasgaru. Nid yw'n dod yn syth i lawr, ond mae'n disgyn ar y ddesg lywyddu hardd, gan fflachio oddi ar y byrllysg ac yna, os allaf ddweud hyn, ar wallt ein Llywydd presennol. [*Chwerthin.*] Dymunaf yn dda i chi. Rydym wedi cydweithio'n agos am 12 mlynedd mewn swyddi gwahanol a gwn fod y llong nid yn unig yn ddiogel, ond bydd yn hwylio ymhell y tu hwnt i'r man y mae wedi hwylio iddo eisoes.

Bernard Weatherill gave me a lot of advice when I first took this job, because he was then not only a distinguished former Speaker of the House of Commons, but also the Convener of the crossbenches. His advice to

Rhoddodd Bernard Weatherill lawer o gyngor imi pan fu imi ymgymryd â'r swydd hon am y tro cyntaf, oherwydd roedd ef, ar y pryd, nid yn unig yn gyn-Lefarydd nodedig Tŷ'r Cyffredin, ond hefyd yn Gynullydd y

me was, 'One thing, when you're Speaker, Dafydd, you never fall out at the same time with the Leader of the Opposition and the Prime Minister.' I tried to follow that advice. You can fall out with them serially, but do not fall out with them at the same time.

croesmeinciau. Ei gyngor i mi oedd hyn: 'Un peth, Dafydd, pan rydych chi'n Lefarydd, peidiwch fyth â ffraeo ag Arweinydd yr Wrthblaid a'r Prif Weinidog ar yr un pryd.' Ymdrechais i ddilyn y cyngor hwnnw. Gallwch ffraeo â hwy fesul un, ond peidiwch ffraeo â hwy ar yr un pryd.

I will mention two characters who are not with us today. I could not possibly mention some characters who are not with us today because I would get into trouble. However, I want to thank Nick Bourne, who was the leader of an opposition party for most of my period here, and Rhodri Morgan, who was the First Minister for most of my period here as Presiding Officer. They both always understood the polite distance that needs to be kept between Presiding Officers and the leaders of parties and First Ministers. They also knew that the roles that we were all carrying out were absolutely essential to the institution and to the democratic process. I am particularly grateful that you have all mentioned the growth of this institution from where we started to where we are today as the main thrust of what I was trying to do as Presiding Officer. It has been the greatest job that I will ever do in my life. This is the best building that I will ever work in. It is a wonderful, sustainable building and it is now sustainable in the hearts and minds of the people of Wales.

Hoffwn sôn am ddau gymeriad nad ydynt gyda ni heddiw. Ni allem fyth sôn am rai cymeriadau nad ydynt yma gyda ni heddiw oherwydd byddem yn mynd i drafferth. Fodd bynnag, hoffwn ddiolch i Nick Bourne, a oedd yn arweinydd gwrthblaid am y rhan fwyaf o fy nghyfnod yma, a Rhodri Morgan, a oedd yn Brif Weinidog am y rhan fwyaf o fy nghyfnod yma fel Llywydd. Roeddent ill dau bob amser yn deall y pellter cwrtais y mae'n rhaid ei gadw rhwng Llywyddion ac arweinwyr partïon a Phrif Weinidogion. Roeddent hefyd yn gwybod bod y rolau yr oeddem i gyd yn eu cyflawni yn gwbl hanfodol i'r sefydliad ac i'r broses ddemocrataidd. Rwy'n arbennig o ddiolchgar eich bod i gyd wedi crybwyll twf y sefydliad o'i ddechreuad hyd heddiw fel y prif beth roeddwn yn ceisio'i wneud fel Llywydd. Dyna oedd y swydd fwyaf y byddaf yn ei wneud yn fy mywyd. Dyma'r adeilad gorau y byddaf yn gweithio ynddo. Mae'n adeilad gwych a chynaliadwy ac mae bellach yn gynaliadwy yng nghalonnau a meddyliau pobl Cymru.

I will say one final word. Much has been made of where I am sitting; I am in seat 41 because my last act, as Rosemary knows, was to put myself here under the terms of the great seating agreement of 2003. Please do not go back to look at the seating crisis of 2003 because none of it does us any credit. As you can see, the seating crisis of 2011 now seems to have been resolved. I will not go any further on that point in case the Liberal Democrats get up and tell me that it has not been resolved. The reason that I am sitting here is because the Liberal Democrats and Plaid between them occupy more seats than are available on the other side of the aisle. Therefore, I am the ambassador to this side of the aisle. It may or may not be a sign of things to come. [*Laughter*.] [*Applause.*]

Hoffwn ddweud un peth arall. Mae llawer wedi'i wneud o'r lle rwyf yn eistedd; rwyf yn sedd 41 oherwydd mai fy ngweithred olaf, fel y gŵyr Rosemary, oedd rhoi fy hun yma o dan delerau cytundeb trefn eistedd fawr 2003. Peidiwch â mynd yn ôl i edrych ar argyfwng trefn eistedd 2003, os gwelwch yn dda, oherwydd nid oes clod i neb. Fel y gwelwch, mae argyfwng trefn eistedd 2011 wedi'i ddatrys. Nid wyf am ymhelaethu ar y pwynt hwnnw rhag ofn y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn codi ac yn dweud wrthyf nad ydyw wedi'i ddatrys. Y rheswm pam rwyf yn eistedd yma yw oherwydd bod y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru rhyngddynt yn meddiannu mwy o seddi nag sydd ar gael ar ochr arall yr eil. Felly, fi yw'r llysgennad i ochr yma'r eil. Efallai fod hyn yn arwydd o bethau i ddod, neu efallai ddim. [*Chwerthin*.] [*Cymeradwyaeth*.]

**The Presiding Officer:** As you can imagine, my role is difficult, but following Dafydd makes it almost impossible. I have never heard you called 'King Ferret' before—that is a new image—but I hope that that does not mean that you will be a gamekeeper turned poacher; I hope that you will be kind to me from the backbenches. I thank all Members who have contributed this afternoon. I am sure that you would all want to endorse the warm tributes that we have heard. As I said last week, Dafydd Elis-Thomas has, over the course of the last 12 years, played a unique role in the history of Wales and we are privileged to have had him as our Presiding Officer. Diolch yn fawr, Dafydd.

**Y Llywydd:** Fel y gallwch ddychmygu, mae fy rôl yn un anodd, ond mae dilyn Dafydd yn ei gwneud hi bron yn amhosibl. Nid wyf erioed wedi clywed neb yn eich galw chi'n 'King Ferret' o'r blaen—mae hynny'n ddelwedd newydd—ond gobeithio nad yw hynny'n golygu y byddwch yn giper sy'n troi'n botsiwr; gobeithio y byddwch yn garedig i mi o'r meinciau cefn. Diolch i'r holl Aelodau sydd wedi cyfrannu y prynhawn yma. Rwy'n siŵr y byddwch i gyd yn awyddus i gymeradwyo'r teyrngedau gwresog rydym wedi'u clywed. Fel y dywedais yr wythnos diwethaf, mae Dafydd Elis-Thomas, dros y 12 mlynedd diwethaf, wedi chwarae rôl unigryw yn hanes Cymru ac rydym yn freintiedig o fod wedi'i gael yn Llywydd. Diolch yn fawr, Dafydd.

## Datganiad gan y Prif Weinidog am ei Benodiadau i'r Cabinet
## Statement by the First Minister on his Cabinet Appointments

**The First Minister (Carwyn Jones):** On Friday of last week, Her Majesty the Queen approved my nominations for ministerial office and I announced my Cabinet shortly afterwards. On Monday of this week, Ministers took their official oaths of office and then got down to work straightaway.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Ar ddydd Gwener yr wythnos diwethaf, cymeradwyodd Ei Mawrhydi y Frenhines fy enwebiadau ar gyfer swyddi gweinidogol a chyhoeddais fy Nghabinet yn fuan wedyn. Ar ddydd Llun yr wythnos hon, cymerodd y Gweinidogion eu llwon yn swyddogol gan ddechrau ar eu gwaith ar unwaith.

I am very happy with the pool of talent available to me and the outcome is a balanced team combining experience, drive and creative energy. The clear emphasis is on delivery. I will judge the success of this Government by measurable outcomes that benefit the people of Wales, and not by the accumulation of elegant words.

Rwy'n hapus iawn gyda'r gronfa o dalent sydd ar gael i mi a chanlyniad hynnyw yw tîm cytbwys sy'n cyfuno profiad, brwdfrydedd ac egni creadigol. Mae'r pwyslais clir ar gyflawni. Byddaf yn barnu llwyddiant y Llywodraeth drwy ganlyniadau mesuradwy sydd o fudd i bobl Cymru, ac nid gan gasgliad o eiriau cain.

It is not my intention to read out detailed ministerial job descriptions, but I will highlight some of the changes that I have made to portfolios and say why I have made them. I expect the full list of detailed ministerial responsibilities to be published over the next week or so.

Nid yw'n fwriad gennyf i adrodd disgrifiadau swydd weinidogol manwl, ond byddaf yn tynnu sylw at rai o'r newidiadau rwyf wedi'u gwneud i bortffolios a dweud pam rwyf wedi'u gwneud. Rwy'n disgwyl i'r rhestr lawn o gyfrifoldebau gweinidogol manwl gael ei chyhoeddi yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf.

As First Minister I will retain overall responsibility for the Welsh Government's legislative programme and I will look to the delivery unit that I am establishing to assist me in measuring progress across Government

Fel Prif Weinidog byddaf yn cadw'r cyfrifoldeb cyffredinol am raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a byddaf yn disgwyl i'r uned gyflawni rwyf yn ei sefydlu fy nghynorthwyo i fesur cynnydd

as a whole. I will continue to take lead responsibility for relationships with the UK Government, the Scottish and Northern Ireland devolved administrations and the European Union and for Wales's global profile. All of the Welsh Government's offices abroad are included in my remit, as are strategic matters relating to energy, major events and communications across Government.

ar draws y Llywodraeth yn ei chyfanrwydd. Byddaf yn parhau i gymryd cyfrifoldeb arweiniol am y berthynas â Llywodraeth y DU, gweinyddiaethau datganoledig yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd ac ar gyfer proffil byd-eang Cymru. Mae pob un o swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys yn fy nghylch gwaith, fel y mae materion strategol sy'n ymwneud ag ynni, digwyddiadau mawr a chyfathrebu ar draws y Llywodraeth.

Turning to the ministerial portfolios, in no particular order, I have decided to move agriculture and tourism as key business sectors to a refocused economic portfolio under Edwina Hart as Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. She will also be responsible for all aspects of research and development as well as continuing to treat science as a priority, working closely with the chief scientific adviser and his advisory council. Alun Davies will be a Deputy Minister with specific day-to-day responsibilities for agriculture, food, fisheries and European programmes.

Gan droi at y portffolios gweinidogol, nid mewn unrhyw drefn benodol, rwyf wedi penderfynu symud amaethyddiaeth a thwristiaeth fel sectorau busnes allweddol i bortffolio economaidd sydd wedi'i ailffocysu o dan Edwina Hart fel y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Bydd hi hefyd yn gyfrifol am bob agwedd ar ymchwil a datblygu, yn ogystal â pharhau i flaenoriaethu gwyddoniaeth, gan weithio'n agos gyda'r prif gynghorydd gwyddonol a'i gyngor ymgynghorol. Bydd Alun Davies yn Ddirprwy Weinidog gyda chyfrifoldebau penodol o ddydd i ddydd ar gyfer amaethyddiaeth, bwyd, pysgodfeydd a rhaglenni Ewropeaidd.

John Griffiths's portfolio will combine the familiar aspects of environment and sustainable development, such as climate change mitigation and planning and countryside matters, with responsibility for the regulatory aspects of agriculture such as animal health and welfare, including measures to tackle bovine TB. For the first time, we have three Ministers with a direct focus on rural affairs, and two of those Ministers sit in Cabinet. I have heard suggestions that rural affairs have been downgraded: far from it; rural affairs have never had stronger representation across the Cabinet and in Government.

Bydd portffolio John Griffiths yn cyfuno agweddau cyfarwydd yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy, megis lliniaru newid yn yr hinsawdd a materion cynllunio a chefn gwlad, a bydd ganddo gyfrifoldeb dros agweddau rheoleiddio amaethyddiaeth, megis iechyd a lles anifeiliaid, gan gynnwys mesurau i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg. Am y tro cyntaf, mae gennym dri Gweinidog gyda ffocws uniongyrchol ar faterion gwledig, ac mae dau o'r Gweinidogion hynny yn y Cabinet. Rwyf wedi clywed awgrymiadau bod materion gwledig wedi'u hisraddio: mae'r sefyllfa honno ymhell o fod yn wir; nid yw materion gwledig erioed wedi cael cynrychiolaeth gryfach ar draws y Cabinet nac yn y Llywodraeth.

Huw Lewis takes on the housing and regeneration responsibilities, combining them with the heritage portfolio. He is responsible for the built environment in Wales, ancient and modern, and has an important job overseeing policy for cultural life in Wales.

Mae Huw Lewis yn derbyn cyfrifoldebau tai ac adfywio, a chânt eu cyfuno â'r portffolio treftadaeth. Mae'n gyfrifol am yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru—hynafol a modern—ac mae ganddo swydd bwysig o ran goruchwylio polisi ar gyfer bywyd diwylliannol yng Nghymru.

Jane Hutt takes on the functions of the Minister for Finance and Leader of the House. Her responsibilities will also include equal opportunities and non-devolved issues relating to asylum seekers and immigration.

Mae Jane Hutt yn derbyn swyddogaethau'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ. Bydd ei chyfrifoldebau hefyd yn cynnwys cyfleoedd cyfartal a materion nad ydynt wedi'u datganoli sy'n ymwneud â cheiswyr lloches a mewnfudo.

Carl Sargeant continues in his previous role as Minister for Local Government and Communities, but also assumes responsibility for transport. He is also responsible for driving forward—if you will forgive the pun—improvement and co-ordination of public service delivery.

Bydd Carl Sargeant yn parhau yn ei rôl flaenorol fel Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ond bydd hefyd yn cymryd y cyfrifoldeb am drafnidiaeth. Bydd hefyd yn gyfrifol am yrru—a maddeuwch y gair mwys—gwelliant a chyd-drefniant o ran darparu gwasanaeth cyhoeddus.

Lesley Griffiths takes on the vital role of Minister for Health and Social Services. She is supported by Gwenda Thomas as Deputy Minister, who will now have a combined children and social services portfolio.

Mae Lesley Griffiths yn cymryd rôl hanfodol y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fe'i chefnogir gan Gwenda Thomas fel Dirprwy Weinidog, a fydd bellach yn cymryd portffolio sy'n cyfuno plant a gwasanaethau cymdeithasol.

Leighton Andrews retains his portfolio, renamed education and skills, and will focus on mainstream education from early years to higher education. He has the additional responsibility for looking after devolved interests in respect of welfare reform. He will also be responsible for all aspects of the Welsh language. This seems to me a sensible linkage of responsibility given that many of the chief levers for advancing the position of the Welsh language lie in the sphere of education. As a committed Welsh learner, he is admirably well qualified for this important responsibility. He is supported by Jeff Cuthbert, Deputy Minister for Skills, who brings to bear a lifetime of experience in the field and who will bring a sharp focus to the delivery agenda.

Mae Leighton Andrews yn cadw ei bortffolio, sydd wedi'i ailenwi yn addysg a sgiliau, a bydd yn canolbwyntio ar addysg brif ffrwd o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg uwch. Mae ganddo'r cyfrifoldeb ychwanegol am ddiogelu buddiannau datganoledig o ran diwygio lles. Bydd hefyd yn gyfrifol am bob agwedd ar yr iaith Gymraeg. Ymddengys hyn i mi fel cysylltiad synhwyrol o gyfrifoldebau o ystyried y saif llawer o'r prif ddulliau i hyrwyddo safle'r iaith Gymraeg ym maes addysg. Fel dysgwr Cymraeg ymroddedig, mae'n rhagorol o gymwys ar gyfer y cyfrifoldeb pwysig hwn. Fe'i cefnogir gan Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, sy'n dwyn oes o brofiad yn y maes ac a fydd yn canolbwyntio'n ofalus ar yr agenda cyflawni.

2.00 p.m.

I will make a further statement to the Assembly in due course regarding the appointment of a Counsel General.

Byddaf yn gwneud datganiad pellach i'r Cynulliad maes o law ynghylch penodi Cwnsler Cyffredinol.

**Paul Davies:** I thank the First Minister for his statement this afternoon and congratulate him again on his re-election. I take this opportunity, on behalf of my party, to congratulate the members of the new Cabinet on their appointment. There are some familiar faces and some new faces, and we on

**Paul Davies:** Diolchaf i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma ac rwy'n ei longyfarch unwaith eto ar gael ei ail-ethol. Hoffwn gymryd y cyfle, ar ran fy mhlaid, i longyfarch aelodau'r Cabinet newydd ar eu penodiad. Mae rhai wynebau cyfarwydd â rhai wynebau newydd, ac rydym ni ar yr ochr

this side of the Chamber look forward to holding these Cabinet Ministers to account. We also look forward to working constructively with them during the fourth Assembly.

hon o’r Siambr yn edrych ymlaen at ddal y Gweinidogion Cabinet hyn i gyfrif. Yr ydym hefyd yn edrych ymlaen at weithio’n adeiladol gyda hwy yn ystod y pedwerydd Cynulliad.

We heard from previous Assembly administrations that they did not have the tools to do the job, so will the First Minister join me in celebrating the fact that, thanks to the overriding backing of the people of Wales in March, this is now an Assembly with primary law-making powers? Does he agree that it is vital that we use the new powers entrusted to us by the people of Wales to full effect if we are to convince more people to play an active role in the Welsh democratic process? Key to that, of course, is sensible, well-crafted and well-thought-out legislation that finally brings about improvements in the daily lives of the people of Wales. There will be no further excuses and the people of Wales will hold you and the new Government to account.

Clywsom gan weinyddiaethau blaenorol y Cynulliad nad oedd ganddynt yr offer i wneud y gwaith, felly a wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i ddathlu’r ffaith, diolch i gefnogaeth hollbwysig pobl Cymru ym mis Mawrth, fod hwn bellach yn Gynulliad â phwerau deddfu sylfaenol? A yw’n cytuno ei bod yn hanfodol ein bod yn defnyddio’r pwerau newydd a ymddiriedwyd i ni gan bobl Cymru i’w heithaf os ydym am ddarbwyllo mwy o bobl i chwarae rhan weithredol yn y broses ddemocrataidd yng Nghymru? Yr allwedd i hynny, wrth gwrs, yw deddfwriaeth synhwyrol, cywrain ac sydd wedi ei ystyried yn ofalus a fydd, o’r diwedd, yn arwain at welliannau ym mywydau bob dydd pobl Cymru. Ni fydd rhagor o esgusodion a bydd pobl Cymru yn eich dal chi a’r Llywodraeth newydd i gyfrif.

Whatever the First Minister says, it is clear that he has chosen to demote the rural affairs portfolio. There is no-one solely dedicated to fighting for rural affairs around the Cabinet table. As someone who represents a rural constituency, I know how important rural areas are to the Welsh economy and the huge contribution that they make to Welsh life.

Beth bynnag y dywed y Prif Weinidog, mae’n amlwg iddo ddewis israddio’r portffolio materion gwledig. Nid oes unrhyw un a fydd yn unswydd yn brwydro dros faterion gwledig o amgylch bwrdd y Cabinet. Fel un sy’n cynrychioli etholaeth wledig, gwn pa mor bwysig yw ardaloedd gwledig i economi Cymru ac am eu cyfraniad enfawr i fywyd Cymru.

As I made clear last week, we will always be constructive for the good of the country. As the official opposition, we will be vigorous and vociferous in bringing this new Government to account. We will be a constructive opposition and we will do our job as the watchdog for the people of Wales. It is not our intention to prevent the new Welsh Government from governing; it is our intention to ensure that it delivers for the people of Wales. Our nation faces huge challenges, and it is now up to this new Government to start addressing those challenges. We must see improvement in the Welsh economy, better outcomes in health and improvement in school performance and educational attainment. It is time for this Cabinet to get down to business and deliver the improved public services that Welsh

Fel y gwneuthum yn glir yr wythnos diwethaf, byddwn bob amser yn adeiladol er lles y wlad. Fel yr wrthblaid swyddogol, byddwn yn egnïol ac yn uchel ein cloch wrth ddal y Llywodraeth newydd i gyfrif. Byddwn yn wrthblaid adeiladol a byddwn yn gwneud ein gwaith fel gwarchotgi dros bobl Cymru. Nid ein bwriad yw atal Llywodraeth newydd Cymru rhag llywodraethu; ein bwriad yw sicrhau ei bod yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru. Mae ein cenedl yn wynebu heriau enfawr, a chyfrifoldeb y Llywodraeth newydd yw hi’n awr i ddechrau mynd i’r afael â’r heriau hynny. Rhaid i ni weld gwelliant yn economi Cymru, canlyniadau gwell mewn iechyd a gwelliant mewn perfformiad ysgolion a chyraeddiadau addysgol. Mae’n bryd i’r Cabinet i dorchi llewys a darparu’r gwasanaethau cyhoeddus

Labour has promised.

gwell a addawodd Llafur Cymru.

Shortly before the beginning of the election campaign, after 12 years in Government in Wales, the Labour Party started talking about delivery. That is what our country rightly and finally deserves. Given that we can expect to see a programme announced by the Government in due course, as the First Minister said, will he confirm that this will contain clear proposals that will deliver for Welsh patients, students and workers? As we know, one of the main priorities for Welsh people is our health service. The previous administration made clear that you intend to cut the health budget by £1 billion over the next three years, so do you share my regret that, thanks to the decision of this Welsh Labour Government, Wales is now the only part of the UK that is cutting its health budget?

Yn fuan cyn dechrau'r ymgyrch etholiadol, ar ôl 12 mlynedd mewn Llywodraeth yng Nghymru, dechreuodd y Blaid Lafur siarad am gyflawni. Dyna iawn haeddiant ein gwlad ers tro byd. O ystyried y gallwn ddisgwyl gweld rhaglen yn cael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth maes o law, fel y dywedodd y Prif Weinidog, a wnaiff gadarnhau y bydd yn cynnwys cynigion clir a fydd yn darparu ar gyfer cleifion, myfyrwyr a gweithwyr Cymru? Fel y gwyddom, un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer pobl Cymru yw ein gwasanaeth iechyd. Gwnaeth y weinyddiaeth flaenorol yn glir eich bod yn bwriadu torri'r gyllideb iechyd o £1 biliwn dros y tair blynedd nesaf, felly a ydych yn rhannu fy siom mai, achos penderfyniad y Llywodraeth Lafur Cymru hon, Cymru bellach yw'r unig ran o'r DU sy'n torri ei chyllideb iechyd?

Another priority for the people of Wales is education, and it was my great pleasure to shadow the Minister for Children, Education and Lifelong Learning for the last two years of the third Assembly. Welsh Conservatives strongly believe that everyone in Wales should have the chance to realise their full potential. Will the First Minister confirm how the Welsh Labour Government intends to build on the PricewaterhouseCoopers review and deliver for students by getting more money to front-line education?

Blaenoriaeth arall ar gyfer pobl Cymru yw addysg, a'm pleser mawr oedd cysgodi'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes dros ddwy flynedd olaf y trydydd Cynulliad. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn credu'n gryf y dylai pawb yng Nghymru gael y cyfle i wireddu eu potensial llawn. A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau sut mae Llywodraeth Lafur Cymru yn bwriadu adeiladu ar yr adolygiad PricewaterhouseCoopers a darparu ar gyfer myfyrwyr drwy drosglwyddo mwy o arian i reng flaen addysg?

It is also crucial that we see an improvement in the Welsh economy, and working with the UK Government will be key to that. Will the First Minister join me in welcoming the UK Government's commitment to working with the new Welsh Labour Government in a spirit of mutual respect in the best interests of the people of Wales?

Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn gweld gwelliant yn economi Cymru, a bydd gweithio gyda Llywodraeth y DU yn allweddol i hynny. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithio gyda'r Llywodraeth Lafur Cymru newydd mewn ysbryd lle mae'r naill yn parchu'r llall er buddiannau pobl Cymru?

I can tell the First Minister that the Welsh Conservatives, as the second largest party in the National Assembly, will provide a robust but constructive opposition. We are willing to work with the Welsh Labour Government where it brings forward proposals that are well thought through and that will result in direct improvements to the life chances of the people of Wales.

Gallaf ddweud wrth y Prif Weinidog y bydd y Ceidwadwyr Cymreig, fel yr ail blaid fwyaf yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn darparu gwrthwynebiad cadarn ond adeiladol. Yr ydym yn barod i weithio gyda Llywodraeth Lafur Cymru lle mae'n cyflwyno cynigion sydd wedi eu hystyried yn ofalus ac a fydd yn arwain at welliannau uniongyrchol i gyfleoedd bywyd pobl Cymru.

**The First Minister:** I thank Paul for his congratulations to me and to the ministerial team that I have assembled. I can assure him that there will be a legislative programme in place that will be designed to use the new powers that we acquired as a result of the referendum in March. Indeed, the Welsh Labour manifesto for the May election shows clearly that we had in place a series of proposals to use our new powers to produce legislation for the good of the people of Wales, now that so many of the restrictions that were imposed on us have been removed.

**Y Prif Weinidog:** Diolchaf i Paul am ei longyfarchiadau i mi ac i'r tîm gweinidogol yr wyf wedi ei ymgynnull. Gallaf ei sicrhau y bydd rhaglen ddeddfwriaethol mewn lle a fydd yn cael ei gynllunio i ddefnyddio'r pwerau newydd a gawsom o ganlyniad i'r refferendwm ym mis Mawrth. Yn wir, mae maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiad mis Mai yn dangos yn glir ein bod wedi sefydlu cyfres o gynigion i ddefnyddio ein pwerau newydd i lunio deddfwriaeth er lles pobl Cymru, gan fod cynifer o'r cyfyngiadau a osodwyd arnom wedi cael eu dileu.

I can assure Paul that farming has not been downgraded at all; indeed, the farmers' unions have said so. As somebody with six years' experience as a farming Minister—and having lived to tell the tale—I can promise the Chamber that farming, as well as fisheries and rural Wales, are areas that I have always held dear; that will continue to be the case. As I said earlier, three members of the Government have responsibility in one way or another for farming and rural affairs more widely.

Gallaf sicrhau Paul nad yw ffermio wedi cael ei israddio o gwbl; yn wir, mae undebau'r ffermwyr wedi dweud hynny. Fel rhywun sydd â chwe blynedd o brofiad fel Gweinidog dros ffermio—ac wedi goroesi i allu adrodd yr hanes—gallaf addo'r Siambr bod ffermio, yn ogystal â physgodfeydd a'r Gymru wledig, yn faterion sydd bob amser wedi bod yn agos at fy nghalon, a bydd hynny'n parhau. Fel y dywedais yn gynharach, mae tri aelod o'r Llywodraeth yn gyfrifol mewn un ffordd neu'i gilydd am ffermio a materion gwledig yn ehangach.

I welcome Paul's comments about being a robust and constructive opposition. We all understand that, in a democracy, there must be robust scrutiny and challenge from opposition parties; that is something that we welcome. It is particularly welcome from my point of view that the opposition will be seen in future to be constructive. Sadly, however, Paul returned to the issue of the health budget, which we spent many weeks discussing in the Chamber. The Welsh Conservatives made an election promise to increase the Welsh health budget by £1 billion. It did not resonate very well, as we know from the result. [*Interruption*.] Well, if you are happy with 14 seats, we are happy with 30.

Rwy'n croesawu sylwadau Paul am fod yn wrthblaid gadarn ac adeiladol. Rydym i gyd yn deall, mewn democratiaeth, fod yn rhaid cael graffu a herio grymus gan y gwrthbleidiau; mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei groesawu. Mae'n arbennig o braf o'm safbwynt i y bydd y gwrthbleidiau yn cael eu gweld yn bod yn adeiladol yn y dyfodol. Yn anffodus, fodd bynnag, dychwelodd Paul at fater y gyllideb iechyd, yr ydym wedi treulio wythnosau lawer yn ei drafod yn y Siambr. Gwnaeth y Ceidwadwyr Cymreig addewid etholiad i gynyddu cyllideb iechyd Cymru o £1 biliwn. Nid oedd yn taro tant, fel y gwyddom o'r canlyniad. [*Torri ar draws.*] Wel, os ydych yn hapus gyda 14 o seddi, rydym yn hapus gyda 30.

That claim is untrue, and it is untrue for this reason: we know full well that the Welsh health budget is being frozen for the next three years and that that is the best that we can do given the settlement that we have received from the UK Government. Many people in Wales are exceptionally grateful for the fact that health policy in Wales is the

Nid yw'r haeriad hwnnw yn wir, ac nid yw'n wir am y rheswm hwn: gwyddom yn iawn fod cyllideb iechyd Cymru yn cael ei rhewi am y tair blynedd nesaf ac mai dyna'r gorau y gallwn ei wneud o ystyried y setliad a gawsom wrth Lywodraeth y DU. Mae llawer o bobl yng Nghymru yn eithriadol o ddiolchgar am y ffaith mai cyfrifoldeb

responsibility of the Welsh Government so that they do not have to suffer the shambles that they are seeing across the border in England. That is why so many people returned to the fold as Labour voters, or became Labour voters for the first time, in May's election. They did not want to see the introduction of GP commissioning in Wales, nor did they want to see the reductions in health spending that are seen in England, where operations are being cancelled and where people have had their prescription charges doubled because it is not possible to provide a two-month supply of a drug; only a one-month supply is allowed in England, which is, effectively, a doubling of prescription charges. That is why people in Wales are grateful that the UK Government no longer has responsibility for health policy in Wales.

Llywodraeth Cymru yw polisi iechyd yng Nghymru fel nad oes yn rhaid iddynt ddioddef y traed moch y maent yn ei weld ar draws y ffin yn Lloegr. Dyna pam y gwnaeth cymaint o bobl droi tua thref fel pleidleiswyr Llafur, neu bleidleisio dros Lafur am y tro cyntaf yn etholiad mis Mai. Nid oeddent am weld cyflwyno comisiynu gan feddygon teulu yng Nghymru, ac nid oeddent am weld y gostyngiadau mewn gwariant ar iechyd a welir yn Lloegr, lle mae triniaethau llawfeddygol yn cael eu canslo a lle mae taliadau presgripsiwn pobl yn cael eu dyblu oherwydd nad yw'n bosibl i ddarparu cyflenwad deufis o gyffur; dim ond cyflenwad un mis a ganiateir yn Lloegr, sydd, i bob pwrpas, yn dyblu taliadau presgripsiwn. Dyna pam mae pobl yng Nghymru yn ddiolchgar nad yw Llywodraeth y DU yn gyfrifol am bolisi iechyd Cymru mwyach.

Paul asked me about the education review. That is something that Leighton Andrews has very robustly said that he will take forward. Many times during the course of the election campaign, Leighton's comments about a systemic failure in education were put to me, proving that Leighton is serious in the extreme about ensuring that the education system improves in Wales over the course of the next few years.

Gofynnodd Paul wrthyf am yr adolygiad addysg. Mae Leighton Andrews wedi dweud yn gadarn iawn y bydd yn bwrw ymlaen â hynny. Sawl gwaith yn ystod yr ymgyrch etholiadol, codwyd sylwadau Leighton am fethiant systemig mewn addysg gyda mi, sy'n profi bod Leighton o ddifrif hyd yr eithaf am sicrhau bod y system addysg yn gwella yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Finally, we will, of course, work with the UK Government. It is essential that there are business-like relationships between all administrations across the whole of the UK. That is something that I will seek to continue in the next few years.

Yn olaf, wrth gwrs y byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU. Mae'n hanfodol bod perthynas effeithiol rhwng yr holl weinyddiaethau ledled y DU. Mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn ceisio ei barhau yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**Ieuan Wyn Jones:** Diolchaf innau i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad, a dymunaf yn dda i aelodau'r Llywodraeth. Nid fy mwriad heddiw yw cyfeirio at benodiadau unigol a wnaed ganddo—mater iddo ef yw hynny—ond dymunaf wneud sylwadau ar y portffolios. Nid wyf ychwaith am wneud sylwadau ar raglen bolisi'r Llywodraeth; byddai'n well gennyf ddisgwyl nes ichi gael cyfle i'w chyflwyno i'r Cynulliad. Gallwn edrych arni'n ofalus a rhoi sylwadau arni bryd hynny, yn ogystal ag ar rai o'r pethau y byddwn yn dymuno gweld y Llywodraeth yn eu gwneud dros y pum mlynedd nesaf.

**Ieuan Wyn Jones:** I, too, thank the First Minister for his statement, and express my good wishes to Government members. It is not my intention today to refer to the individual appointments that he has made—that is a matter for him—but I would like to comment on the portfolios. Likewise, I will not comment on the Government's policy programme; I would rather wait until you have had an opportunity to present it to the Assembly. We can then carefully consider the programme and make comments, and touch also on some things that we would like to see the Govermment doing over the next five years.

Croesawaf nifer o bethau yn eich datganiad. Yn gyntaf, ni chyfeiriasoch at y ffaith eich bod wedi lleihau nifer y Gweinidogion, ond credaf mai gwneud hynny oedd y penderfyniad cywir. Yn ail, croesawaf y ffaith eich bod yn dod â'r cyfrifoldeb am y Gymraeg i brif ffrwd un o adrannau mwyaf y Llywodraeth, sef yr adran addysg. Ymhellach i hynny, gobeithiwn y bydd y Gweinidog yn gallu creu uned iaith gref yn yr adran; byddem yn croesawu hynny. Byddai hynny'n sicrhau bod y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ddiweddar yn cael ei gweithredu, a bod datblygiad yr iaith yn gyffredinol yn cael ei glymu wrth y cynnydd yr ydym i gyd yn ei ddisgwyl yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai sefydlu'r uned honno, a chyhoeddi eich bod am wneud hynny, yn gam arall i'r cyfeiriad cywir.

I welcome a number of the points made in your statement. First, you did not refer to the fact that you have reduced the number of Ministers, but I believe that that was the right decision. Secondly, I welcome the fact that you have brought responsibility for the Welsh language into one of the Government's largest departments, namely education. Further to that, we hope that the Minister will be able to establish a strong language unit within his department; we would welcome that. That would ensure that the legislation recently introduced was implemented, and that the language's development in general was tied to the growth that we expect to see in Welsh-medium education. Establishing that unit, and announcing your intention to do so, would be another step in the right direction.

Mater arall sy'n bwysig, nad yw'n hollol glir o'r cyhoeddiad a wnaethoch, Brif Weinidog, yw pa Weinidog fydd â golwg ar S4C. A fydd hynny'n cael ei wneud gan Huw Lewis ynteu gan Leighton Andrews? Mae'n bwysig cael eglurder ar hynny.

Another important issue that is not clear from your anouncement, First Minister, is which Minister will have oversight of S4C. Will that be done by Huw Lewis or by Leighton Andrews? It is important to have clarity on that issue.

Brif Weinidog, yr ydych wedi cyflwyno achos heddiw i ddweud y bydd materion gwledig yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth, ac y bydd tri Gweinidog yn gyfrifol amdanynt. Nid wyf yn rhannu eich hyder yn hynny o beth. Bydd rhaid cynnal nifer o drafodaethau pwysig yn ystod y cyfnod nesaf, yn arbennig ar ddyfodol taliadau Ewropeaidd, felly mae'n iawn inni gael gwybod pwy yn y Llywodraeth fydd yn arwain y trafodaethau hynny gyda'r Undeb Ewropeaidd. Os oes Gweinidog dros faterion gwledig yn y Cabinet, yr ydych yn gwybod yn glir pwy sy'n gyfrifol, ond nid ydym yn gwybod hynny ar hyn o bryd. Nid yw'r trefniadau fel y maent wedi'u gosod yn rhoi hyder i mi y byddant er lles y Gymru wledig. Rhaid i'r Llywodraeth ddeall bod canfyddiad—nid wyf yn dweud ei fod yn fwy na hynny ar hyn o bryd—y bydd yn canolbwyntio ar faterion trefol ac nid ar faterion gwledig. Mae'n rhaid ichi chwalu'r canfyddiad hwnnw, a bydd y penderfyniadau yr ydych yn eu gwneud fel Llywodraeth yng nghyswllt hynny yn hynod o bwysig.

First Minister, you have made the case today that rural affairs are a priority for the Government, and that they will be covered by three Ministers. I do not share your confidence in that respect. A number of important negotiations will be held over the coming months, especially on the future of European payments, so it is right for us to know which member of the Government will lead those discussions with the European Union. If there is a Minister for rural affairs in Cabinet, you know full well who takes the lead, but we do not have that detail at present. We are not confident that the arrangements that have been made will benefit rural Wales. The Government must realise that there is a perception—I am not saying, at present, that it is more than that—that it will focus on urban, rather than rural, issues. You must quash that perception, and the decisions that you make as a Government in that respect will be vital.

Nid wyf ychwaith yn deall pam mae'n rhaid gwahanu'r cyfrifoldeb am faterion gwledig

I also do not understand why responsibility for rural affairs and agriculture have to be

ac amaeth oddi wrth y cyfrifoldeb am iechyd anifeiliaid. Pam nad oedd modd cadw'r cyfrifoldebau hynny mewn un portffolio? Hoffwn glywed y rhesymeg dros hynny, gan nad yw'n gwneud fawr o synnwyr i mi.

split from animal health. Why was it not possible to keep those responsibilities in one portfolio? I would like to hear the reasoning for that, as it does not make much sense to me.

There are a number of other decisions on which I would like clarification. The first is on the issue of splitting the responsibility for business and transport. It would be interesting to hear the reasoning for that, because if you are committed, as I hope you are, to the continuation of the key principles that underpin the economic renewal programme, you will know that it was partly underpinned by making sure that investment in infrastructure was part of the development of the economy. It is vital for the economy that infrastructure is seen as an integral part of it. Splitting transport and business will mean that the responsibility for part of that infrastructure, relating to high-speed broadband, to which I hope you are committed, will remain with the Minister for business, but the aspect relating to transport will be separate. We need to understand the reasoning for that. Clearly, the biggest capital investment that the Government has is in transport, and it is vital in driving the economy forward.

Mae nifer o benderfyniadau eraill yr hoffwn gael eglurhad amdanynt. Y cyntaf yw'r mater o rannu'r cyfrifoldeb ar gyfer busnes a thrafnidiaeth. Diddorol byddai clywed y rhesymau am hynny, oherwydd os ydych yn ymroddedig, fel y gobeithiaf eich bod, i barhad yr egwyddorion allweddol sy'n sail i'r rhaglen adnewyddu economaidd, byddwch yn gwybod y cafodd ei seilio yn rhannol drwy sicrhau bod buddsoddi mewn isadeiledd yn rhan o ddatblygiad yr economi. Mae'n hanfodol i'r economi bod isadeiledd yn cael ei weld fel rhan annatod ohono. Bydd hollti trafnidiaeth a busnes yn golygu bod y cyfrifoldeb am y rhan o'r isadeiledd hwnnw sy'n ymwneud â band eang cyflym, a gobeithiaf eich bod wedi ymrwymo i hwnnw, yn aros gyda'r Gweinidog dros fusnes, ond bydd yr agwedd sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ar wahân. Mae angen i ni ddeall y rhesymau dros hynny. Yn amlwg, mae buddsoddiad cyfalaf mwyaf y Llywodraeth mewn trafnidiaeth, ac mae'n hanfodol wrth yrru'r economi yn ei flaen.

My other question is: why has the heritage department been divided into three? There is a danger that it could become a real mishmash. I welcome the decision on the Welsh language, but, as for the other parts of the department, tourism has gone to business and the other part of heritage is now with housing and regeneration. It does not appear to have been given the respect that it deserves, having been split into three.

Fy nghwestiwn arall yw: pam mae'r adran treftadaeth wedi'i rannu'n dri? Mae perygl y gallai droi'n gybolfa go iawn. Croesawaf y penderfyniad ar yr iaith Gymraeg, ond, o ran rhannau eraill yr adran, mae twristiaeth wedi mynd i'r porffolio busnes ac mae'r rhan arall o dreftadaeth yn awr ym mhortffolio tai ac adfywio. Nid yw'n ymddangos iddi gael y parch mae'n ei haeddu, gan iddi gael ei rhannu'n dair.

2.15 p.m.

Another point that I would make concerns what is probably a difference in approach. I welcome the fact that the new Minister for business will have responsibility for research and development—that is a key decision, and one that needed to be made. My view is that skills should be included in that portfolio, because the key issue is to ensure that infrastructure, research and development, skills and business go hand in hand. I am sure that you are aware that many businesspeople

Mae pwynt arall y byddwn yn ei wneud am yr hyn sy'n wahaniaeth o ran dull, mae'n debyg. Croesawaf y ffaith y bydd y Gweinidog newydd dros fusnes yn gyfrifol am ymchwil a datblygu—mae hynny'n benderfyniad allweddol, ac yn un roedd angen ei wneud. Fy marn i yw y dylai sgiliau gael eu cynnwys yn y portffolio hwnnw, oherwydd y mater allweddol yw sicrhau bod isadeiledd, ymchwil a datblygu, sgiliau a busnes yn mynd law yn llaw. Rwyf yn siŵr y

will say that you need to bring them together. While there are other, wider issues that you could not bring in, such as planning and regulation, there is nevertheless that further step that you could take. Therefore, I welcome the approach that you have taken on research and development, but we need to consider skills also. That is my view, and it is one that we expressed in our election manifesto.

gwyddoch y bydd llawer o bobl busnes yn dweud bod angen ichi ddod â nhw at ei gilydd. Er bod materion eraill ehangach na allech eu cynnwys, fel cynllunio a rheoleiddio, gallech gymryd y cam pellach hwnnw, serch hynny. Felly, croesawaf eich ymagwedd tuag at ymchwil a datblygu, ond mae angen inni ystyried sgiliau hefyd. Dyna fy marn i, ac mae'n un y gwnaethom ei mynegi yn ein maniffesto etholiad.

My final points concern matters that are outside the portfolios that you have outlined. They concern the relationship with the UK Government, which Paul mentioned. Have you made approaches to the UK Government about the need to reform the Barnett formula? If so, have you had a response? You have made it clear that you will not countenance tax-varying powers for this Assembly unless the Barnett formula is reformed—we need to know what approaches you have made to the UK Government on that. The reason for doing so is not just that it is right to do so; capital expenditure has suffered a massive cut, and that is the major challenge facing you in the budget over the next five years. Unless we have movement on these fundamental issues of the Assembly's finances, you will face an impossible task as you try to deliver your programme. The capital budget has been cut by 40 per cent and, currently, there is nothing to replace what has been cut.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â materion sydd y tu allan i'r portffolios yr ydych wedi'u hamlinellu. Maent yn ymwneud â'r berthynas gyda Llywodraeth y DU, y soniodd Paul amdani. A ydych wedi sôn wrth Lywodraeth y DU am yr angen i ddiwygio fformiwla Barnett? Os felly, a gawsoch ymateb? Rydych wedi gwneud yn glir na fyddwch yn cefnogi pwerau amrywio trethi i'r Cynulliad hwn oni bai bod fformiwla Barnett yn cael ei ddiwygio—mae angen i ni wybod pa sylwadau a wnaethoch i Lywodraeth y DU ar hynny. Y rheswm dros wneud hynny yw nid yn unig am ei bod yn iawn i wneud hynny; mae gwariant cyfalaf wedi dioddef toriad anferth, a dyna yw'r her fwyaf sy'n eich wynebu yn y gyllideb dros y pum mlynedd nesaf. Oni bai ein bod yn gweld cynnydd ar y materion sylfaenol hyn o ran cyllid y Cynulliad, byddwch yn wynebu tasg amhosibl wrth ichi geisio cyflawni eich rhaglen. Mae'r gyllideb gyfalaf wedi cael ei thorri o 40 y cant ac, ar hyn o bryd, nid oes dim i gymryd lle yr hyn a gafodd ei dorri.

**Y Prif Weinidog:** Dechreuaf gyda gair o ddiolch i Ieuan, Alun Ffred, Elin, Jocelyn a Rhodri Glyn am eu gwasanaeth yn y Llywodraeth ddiwethaf. Fy marn i yw i'r Llywodraeth honno gyflawni yn y Cynulliad o 2007 i 2011. Gwir yw dweud bod llai o Weinidogion yn awr; fy marn i oedd ei bod yn bwysig cael Llywodraeth effeithiol ac nid oedd rhaid felly benodi rhywun i lenwi bob un lle o ran y Llywodraeth hon.

**The First Minister:** I will start by thanking Ieuan, Alun Ffred, Elin, Jocelyn and Rhodri Glyn for their services to the last Government. It is my opinion that that Government delivered in the Assembly from 2007 to 2011. It is true to say that there are fewer Ministers now; my view was that it is important to have an effective Government and that therefore it was not necessary to appoint someone to fill every slot with regard to this Government.

Mae Ieuan wedi codi sawl pwynt ynghylch ymhle y dylid gosod rhai cyfrifoldebau. Fel y mae Ieuan yn gwybod, mae'n anodd iawn weithiau i ddweud bod un peth yn ffitio'n daclus mewn un adran. Yr wyf yn erfyn i'r Gweinidogion weithio gyda'i gilydd, gan fod sawl pwnc yn torri ar draws cyfrifoldebau'r

Ieuan raised several points with regard to where certain responsibilities should lie. As Ieuan knows, it is sometimes very difficult to say that one issue fits neatly into one department. I expect the Ministers to work with each other, as several subjects cut across various departments' responsibilities. There

gwahanol adrannau. Bydd mecanwaith i sicrhau bod hynny'n digwydd.

will be mechanism to ensure that that happens.

O ran y person sy'n gyfrifol am S4C, Huw Lewis yw hwnnw, ond bydd yn gweithio'n agos iawn gyda Leighton Andrews, y Gweinidog â chyfrifoldeb dros yr iaith Gymraeg. O ran ffermio, soniodd Ieuan am y ffaith bod gwahaniaeth rhwng yr elfen sy'n ymwneud â rheoli'r economi, sef cynllunio, a'r elfen sy'n ymwneud â marchnata'r economi, sef hen bortffolio yr economi a thrafnidiaeth. Yr hyn sydd wedi digwydd gyda ffermio yw bydd yr elfen reoli yn un adran a'r elfen farchnata mewn adran arall.

With regard to who has responsibility for S4C, Huw Lewis does, but he will be working very closely with Leighton Andrews, the Minister with responsibility for the Welsh language. As for farming, Ieuan mentioned the fact that there is a difference between the economic management aspect, namely planning, and the aspect that concerns marketing the economy, namely the former economy and transport portfolio. What has happened with farming is that the management aspect will be in one department and the marketing aspect in another.

O ran trafnidiaeth, mae'n hynod bwysig i gymunedau gael y drafnidiaeth sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl i deithio i'r gwaith ac ati. Mae'n bwysig ystyried y ffaith bod awdurdodau lleol yn rhan bwysig o gyflawni o ran trafnidiaeth, a dyna pam y mae trafnidiaeth yn yr adran honno. Mae'n bwysig, er hynny, i'r ddau Weinidog weithio gyda'i gilydd ar ddarparu system drafnidiaeth sydd o fudd i'r economi.

With regard to transport, it is very important that communities have the transport that makes it easier for them to travel to work and so on. It is important to consider the fact that local authorities play an important role in transport delivery, and that is why transport is in that department. It is important, however, for the two Ministers to work together to deliver a transport system that benefits the economy.

Ieuan asked a question about the way in which responsibilities that were in the heritage portfolio have now been split. Responsibility for the Welsh language has been given to the Minister for education for the reasons that I outlined—namely, the exceptionally important role that education plays in increasing not only the number of Welsh speakers but the use of Welsh. Turning to tourism, I regard it as an industry: it is one of our biggest industries. In my view, it sits more properly with business, enterprise, technology and science than with the heritage department, in recognition of the fact that it is one of the biggest industries that we have, if not the biggest industry, and that it is a significant employer in Wales.

Gofynnodd Ieuan gwestiwn am y ffordd y cafodd y cyfrifoldebau a oedd yn y portffolio treftadaeth eu rhannu. Rhoddwyd cyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg i'r Gweinidog dros addysg am y rhesymau a roddais, sef y rôl eithriadol o bwysig mae addysg yn ei chwarae o ran cynyddu nid yn unig y nifer o siaradwyr Cymraeg ond hefyd y defnydd o'r Gymraeg. Gan droi at dwristiaeth, rwyf yn ei ystyried yn ddiwydiant: mae'n un o'n diwydiannau mwyaf. Yn fy marn i, mae'n eistedd yn fwy priodol gyda busnes, menter, technoleg a gwyddoniaeth nag yn yr adran dreftadaeth, i gydnabod y ffaith ei fod yn un o'r diwydiannau mwyaf sydd gennym, os nad y mwyaf, a'i fod yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru.

Regarding the skills portfolio, Jeff Cuthbert will be working with more than one Minister to deliver on skills. Skills are important in terms of education, but they are also important in terms of the economy, as we know.

O ran y portffolio sgiliau, bydd Jeff Cuthbert yn gweithio gyda mwy nag un Gweinidog i gyflawni ar sgiliau. Mae sgiliau yn bwysig o ran addysg, ond maent hefyd yn bwysig o ran yr economi, fel y gwyddom.

Regarding our relationship with the UK Government, we will approach any

O ran ein perthynas â Llywodraeth y DU, byddwn yn dod at unrhyw drafodaethau gyda

discussions with the UK Government on the financial settlement for this institution and for Wales with an open mind. The only issue that you will be aware of that we have raised, is that, as a Government, we would not seek income tax-varying powers. One reason for that, among others, is that, to my mind, there would need to be a referendum on that issue, given that that is what happened in Scotland. That does not mean that other financial arrangements cannot be explored and I share Ieuan's concern regarding capital funding in the years ahead. We need to explore ways in which this Government could borrow money in the future. Otherwise, we could end up in a situation where we would be the only level of government anywhere in the UK that cannot borrow. Clearly, that is not a sustainable position. It is true to say that we need to see the Barnett formula reformed. However, we will approach discussions with the UK Government without preconditions. It is important that a package is put in place that deals not only with Barnett reform but with other issues that may arise. We look forward to hearing the UK Government's position in the discussions that we will hold with it in the near future.

Llywodraeth y DU ar y setliad ariannol ar gyfer y sefydliad hwn a Chymru gyda meddwl agored. Yr unig fater y byddwch yn gwybod ein bod wedi ei godi yw na fyddem, fel Llywodraeth, am geisio pwerau amrywio treth incwm. Un rheswm am hynny, ymhlith eraill, yw y byddai angen refferendwm ar y mater hwnnw, yn fy marn i, o ystyried mai dyna ddigwyddodd yn yr Alban. Nid yw hynny'n golygu na ellir archwilio trefniadau ariannol eraill ac rwy'n rhannu pryder Ieuan am gyllid cyfalaf yn y blynyddoedd i ddod. Mae angen inni edrych ar ffyrdd y gallai'r Llywodraeth hon fenthyg arian yn y dyfodol. Fel arall, gallem ddiweddu mewn sefyllfa lle byddem yr unig lefel o lywodraeth yn unman yn y DU na all fenthyca. Yn amlwg, nid yw hynny'n sefyllfa gynaliadwy. Mae'n wir dweud ein bod angen gweld diwygio ar fformiwla Barnett. Fodd bynnag, byddwn yn dod at drafodaethau gyda Llywodraeth y DU heb ragamodau. Mae'n bwysig bod pecyn yn cael ei roi ar waith sy'n ymdrin nid yn unig â diwygio Barnett, ond â materion eraill a allai godi. Edrychwn ymlaen at glywed safbwynt Llywodraeth y DU yn y trafodaethau y byddwn yn eu cynnal â hi yn y dyfodol agos.

**Kirsty Williams:** I thank the First Minister for his statement in the Chamber this afternoon. I congratulate him once again on his appointment as First Minister, and I offer my congratulations to the Ministers and Deputy Ministers on their appointments. I wish them all well in their new roles.

**Kirsty Williams:** Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad yn y Siambr y prynhawn yma. Rwy'n ei longyfarch unwaith eto ar ei benodiad fel Prif Weinidog, ac rwy'n llongyfarch y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion ar eu penodiadau. Dymunaf yn dda iddynt yn eu rolau newydd.

I welcome what the First Minister said about the lack of a need for elegant words during this Assembly. The First Minister is right: the greatest eloquence is that which gets things done. I look forward to seeing the Government publish a delivery plan. I assume that it is the First Minister's intention to do that. The publication of such a plan was an innovation of the One Wales Government, and the document allowed us to scrutinise the progress of the Government in achieving its stated aims, objectives and goals. I would be grateful to hear whether the First Minister intends to carry on with that mechanism and, if so, when the Chamber could expect to see the delivery plan and have an opportunity to debate it.

Croesawaf yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog am y ffaith nad oes angen huodledd yn ystod y Cynulliad hwn. Mae'r Prif Weinidog yn iawn: yr huodledd mwyaf yw'r un sy'n cyflawni pethau. Edrychaf ymlaen at weld y Llywodraeth yn cyhoeddi cynllun cyflawni. Cymeraf yn ganiataol mai bwriad y Prif Weinidog yw gwneud hynny. Mae cyhoeddi cynllun o'r fath yn rhywbeth a arloesodd Llywodraeth Cymru'n Un, ac roedd y ddogfen yn ein galluogi i graffu ar gynnydd y Llywodraeth i gyflawni ei nodau, amcanion a bwriadau datganedig. Byddwn yn ddiolchgar cael clywed a yw'r Prif Weinidog yn bwriadu dal ati gyda'r mecanwaith hwnnw ac, os felly, pryd y gall y Siambr ddisgwyl gweld y cynllun cyflawni a chael cyfle i gael dadl arno.

I turn to the issue of legislation. I note the First Minister's intention to pursue a strong legislative programme over the next five years—rightly so, given the new powers that have been afforded to us by the people of Wales. I would be grateful if the First Minister could give us an early indication of when we could expect to see the publication of the Government's first legislative programme. The Labour Party manifesto was a considerable, long document. It would be useful to the people of Wales and to those in the Chamber to have an early indication from the Government of which areas in the manifesto it will seek to prioritise, especially within the first 12 months. If the First Minister could give an indication as to whether we could expect to have a statement on the legislative programme and a debate in the Chamber as soon as possible, I would be very grateful.

Trof at ddeddfwriaeth. Nodaf fwriad y Prif Weinidog i ddilyn rhaglen ddeddfwriaethol gadarn dros y pum mlynedd nesaf—yn briodol, o ystyried y pwerau newydd a roddwyd i ni gan bobl Cymru. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog roi syniad cynnar inni o pryd y gallem ddisgwyl gweld cyhoeddi rhaglen ddeddfwriaethol gyntaf y Llywodraeth. Roedd maniffesto'r Blaid Lafur yn ddogfen sylweddol a hir. Byddai'n dda i bobl Cymru a'r rhai yn y Siambr gael syniad cynnar gan y Llywodraeth o ba feysydd yn y maniffesto y bydd am eu blaenoriaethu, yn enwedig o fewn y 12 mis cyntaf. Pe gallai'r Prif Weinidog roi syniad ynghylch a allem ddisgwyl datganiad ar y rhaglen ddeddfwriaethol a dadl yn y Siambr cyn gynted ag y bo modd, byddwn yn ddiolchgar iawn.

I turn now to the issue of rural affairs. The First Minister misses the point—not for the first time in relation to rural affairs, it should be said—in relation to responsibilities. The First Minister will be aware that, under the previous One Wales Government, the Minister for Rural Affairs had responsibility for more than agriculture alone. I would be the last person in this Chamber to downgrade the importance of agriculture. However, the First Minister will be aware that the previous Minister for Rural Affairs had a cross-cutting approach to issues around rural life. For me, the real concern is which Minister, of the many that now seem to have responsibility for rural affairs, will be responsible for looking at the impact of the Government's programmes on the rural community. Believe me: the impact of how resources are allocated, the impact of legislation on how services are delivered in rural areas, as well as on a range of challenges facing the future of rural communities, cannot simply be afforded to the issue of agriculture alone.

Trof yn awr at faterion gwledig. Mae'r Prif Weinidog yn methu'r pwynt—nid am y tro cyntaf o ran materion gwledig, mae'n rhaid dweud—mewn perthynas â chyfrifoldebau. Bydd y Prif Weinidog yn gwybod, o dan y Lywodraeth Cymru'n Un flaenorol, yr oedd y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn gyfrifol am fwy na dim ond amaethyddiaeth. Fi fyddai'r olaf yn y Siambr hon i israddio pwysigrwydd amaethyddiaeth. Fodd bynnag, bydd y Prif Weinidog yn gwybod bod y Gweinidog blaenorol dros Faterion Gwledig wedi mabwysiadu agwedd drawsbynciol at faterion yn ymwneud â bywyd gwledig. I mi, y pryder go iawn yw pa Weinidog, o'r nifer sydd bellach yn ymddangos eu bod yn gyfrifol am faterion gwledig, fydd yn gyfrifol am edrych ar effaith rhaglenni'r Llywodraeth ar y gymuned wledig. Credwch fi: ni ellir gadael effaith sut y caiff adnoddau eu dyrannu, effaith deddfwriaeth ar sut y cyflwynir gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, yn ogystal ag ystod o heriau sy'n wynebu dyfodol cymunedau gwledig, i amaethyddiaeth yn unig.

Finally, I turn to the issue of the delivery unit, which the First Minister referred to in his statement. I would be grateful to hear greater detail from the First Minister on what the roles and responsibilities of that unit will be. The Labour Party manifesto states:

Yn olaf, trof at yr uned gyflawni, y soniodd y Prif Weinidog amdani yn ei ddatganiad. Byddai'n dda clywed mwy o fanylion gan y Prif Weinidog ar beth fydd rolau a chyfrifoldebau'r uned honno. Dywed maniffesto'r Blaid Lafur:

‘To ensure the integrated and streamlined delivery of strategic government priorities, we will establish a First Minister’s Delivery Unit at the heart of the Welsh Assembly Government’.

‘Er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau strategol y llywodraeth yn cael eu cyflwyno’n integredig ac yn llyfn, byddwn yn sefydlu Uned Gyflwyno Prif Weinidog Cymru wrth wraidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.’

However, on the *Politics Show* on Sunday, it seemed that the First Minister was claiming that delivery was not a new thing, that Labour Governments had always been about delivery, and that the problem was they just had not been very good in the past at communicating that message to ordinary people. I therefore ask the First Minister to clarify whether the delivery unit will simply be a PR exercise to promote the policies of the Labour Government or whether it will have any real function in the co-ordination and delivery of Government policy. If there ever was a need for a unit to be responsible for the co-ordination and delivery of Government policies, now is the best time to have one. Therefore, perhaps the First Minister could give some detail on what his intentions are in that regard.

Fodd bynnag, ar y *Politics Show* ddydd Sul, roedd yn ymddangos bod y Prif Weinidog yn hawlio nad oedd cyflawni yn beth newydd, bod Llywodraethau Llafur bob amser wedi bod am gyflawni, ac mai’r broblem oedd nad oeddent wedi bod yn dda iawn yn y gorffennol o ran cyfathrebu’r neges honno i bobl gyffredin. Felly, gofynnaf i’r Prif Weinidog egluro a fydd yr uned gyflawni yn ddim mwy nag ymarfer cysylltiadau cyhoeddus i hyrwyddo polisïau’r Llywodraeth Lafur neu a fydd ganddi unrhyw swyddogaeth go iawn o ran cyd-drefnu a chyflawni polisi’r Llywodraeth. Os bu angen erioed am uned i fod yn gyfrifol am gyd-drefnu a chyflawni polisiau’r Llywodraeth, dyma’r amser gorau i gael un. Felly, efallai y gallai’r Prif Weinidog roi rhywfaint o fanylion am beth yw ei fwriadau yn hynny o beth.

**The First Minister:** I can assure the Chamber that a legislative programme will be published after the Whitsun recess. It will be published as soon as possible—I hope that it will be within the first week that we are back. It is important that the Assembly is able to get its teeth into the new powers that it has, and the Government will bring forward a legislative programme during the course of that time.

**Y Prif Weinidog:** Gallaf sicrhau’r Siambr y bydd rhaglen ddeddfwriaethol yn cael ei chyhoeddi ar ôl toriad y Sulgwyn. Bydd yn cael ei chyhoeddi gynted ag y bo modd—gobeithio yn yr wythnos gyntaf y byddwn yn ôl. Mae’n bwysig bod y Cynulliad yn gallu cael ei ddannedd i mewn i’r pwerau newydd sydd ganddo, a bydd y Llywodraeth yn cyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol yn ystod y cyfnod hwnnw.

With regard to rural affairs, Alun Davies has primary day-to-day responsibility for rural affairs, including the rural economy. Where there will be a need for a Minister to represent the Government at various meetings, that Minister will be Edwina Hart. That would be in situations where other Ministers of the same rank, as it were, would be attending those meetings. I anticipate that that situation would only arise from time to time. Alun Davies will be responsible for rural affairs, rural economic development and the marketing side of farming, fisheries and food.

O ran materion gwledig, Alun Davies sydd â’r prif gyfrifoldeb o ddydd i ddydd am faterion gwledig, gan gynnwys yr economi wledig. Lle bydd angen i Weinidog gynrychioli’r Llywodraeth mewn cyfarfodydd amrywiol, y Gweinidog hwnnw fydd Edwina Hart. Byddai hynny mewn sefyllfaoedd lle byddai Gweinidogion eraill o’r un statws, fel petai, yn mynychu’r cyfarfodydd hynny. Rwyf yn rhagweld mai dim ond o bryd i’w gilydd y byddai’r sefyllfa honno’n codi. Bydd Alun Davies yn gyfrifol am faterion gwledig, datblygu’r economi wledig a’r ochr farchnata o ran ffermio, pysgodfeydd a bwyd.

With regard to the delivery unit, it will be accountable directly to me. Its job will be to ensure that we do what say we will do, so that members of the public are able to measure what the Welsh Government does and form their own conclusions as to whether they like what we are doing. One problem that we have had to face over the past few years is that people are often not aware of what has been done by us as the Government or by the Assembly as a parliamentary body. It is important that people are able to get the information that they need to measure what the Government is doing and form their own conclusions as to whether they wish the Government to continue after the next election. That delivery unit will be made up of civil servants—it is not a political unit in any sense of the word—and the job of the unit will be to ensure that each department of the Government takes forward policy and legislation in a timely fashion and is delivering to a set of targets, against which the people of Wales will be able to assess the Government's performance.

O ran yr uned gyflawni, bydd yn atebol yn uniongyrchol i mi. Ei gwaith fydd sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn y gwnaethom ei ddweud y byddem yn ei wneud, fel bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu mesur yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud a dod i gasgliadau eu hunain ynghylch a ydynt yn hoffi yr hyn yr ydym yn ei wneud. Un broblem yr ydym wedi gorfod ei hwynebu dros y blynyddoedd diwethaf yw nad yw pobl yn aml yn ymwybodol o'r hyn sydd wedi cael ei wneud gennym ni fel Llywodraeth na'r Cynulliad fel corff seneddol. Mae'n bwysig bod pobl yn gallu cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i fesur yr hyn mae'r Llywodraeth yn ei wneud a dod i gasgliadau eu hunain ynghylch a ydynt yn dymuno i'r Llywodraeth barhau ar ôl yr etholiad nesaf. Bydd yr uned gyflawni honno yn cynnwys gweision sifil—nid yw'n uned wleidyddol mewn unrhyw ystyr o'r gair—a gwaith yr uned fydd sicrhau bod pob adran o'r Llywodraeth yn datblygu polisi a deddfwriaeth mewn modd amserol i set o dargedau, y bydd pobl Cymru yn gallu asesu perfformiad y Llywodraeth yn eu herbyn.

**Andrew R.T. Davies:** I congratulate you on your return to the post of First Minister, and I congratulate your Cabinet colleagues on their appointments. I specifically pick out the role of Minister for Business, Enterprise and Technology. All the parties here were heavily canvassed, and manifestos were brought forward from various organisations, on the issue of creating a more cohesive economic department—including planning, skills and transport all under one umbrella. It is your prerogative as First Minister to give out the responsibilities as you see fit, but you have chosen not to listen to that advice or the posturing by various organisations that might have occurred before the election. Do you think that you have reached the right balance in your Cabinet? Are you confident, with regard to the advice offered by other organisations such as the Confederation of British Industry and the Federation of Small Businesses to try and create a more cohesive department—a one-stop shop—that your new combination will provide the advice and support that business needs to create enterprise opportunities in Wales?

**Andrew R.T. Davies:** Llongyfarchiadau ar ddychwelyd i swydd y Prif Weinidog, a llongyfarchiadau i'ch cydweithwyr yn y Cabinet ar eu penodiadau. Cyfeiriaf yn benodol at rôl y Gweinidog Busnes, Menter a Thechnoleg. Cafodd yr holl bleidiau yma eu canfasio'n daer, a chafodd maniffestos eu cyflwyno gan wahanol sefydliadau ar greu adran economaidd fwy cydlynol—gan gynnwys cynllunio, sgiliau a thrafnidiaeth i gyd o dan un ymbarél. Eich hawl chi fel Prif Weinidog yw dosbarthu cyfrifoldebau fel y gwelwch yn dda, ond rydych wedi dewis peidio â gwrando ar y cyngor hwnnw na'r ystumio gan wahanol sefydliadau a allai fod wedi digwydd cyn yr etholiad. A ydych yn meddwl bod gennych y cydbwysedd cywir yn eich Cabinet? A ydych yn hyderus, o ran y cyngor a gynigir gan sefydliadau eraill fel Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Ffederasiwn Busnesau Bach i geisio â chreu adran fwy cydlynol—siop un stop—y bydd eich cyfuniad newydd yn darparu'r cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar fusnesau er mwyn creu cyfleoedd menter yng Nghymru?

2.30 p.m.

**The First Minister:** It is not possible to put planning and the economy in the same department; there are legal issues with that. The reason for that is that where a development is proposed, and that development is being financed by one department of the Welsh Government, it is important that the planning element is looked at by another department, otherwise the same people are deciding both the planning and the project, and that is not legally possible. Therefore, it is important that the regulatory side is separate from the economy side. That said, of course, I would expect the Minister for Business, Enterprise and Technology to liaise regularly with the Minister for Environment and Sustainable Development in order to ensure that the overall planning framework in Wales is appropriate for the efficient delivery of economic development without the departments discussing specific planning issues, which will be decided in a quasi-judicial manner by the Minister for Environment and Sustainable Development.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'n bosibl rhoi cynllunio a'r economi yn yr un adran; mae problemau cyfreithiol gyda hynny. Y rheswm dros hynny yw lle bwriedir cyflwyno datblygiad, a bod y datblygiad yn cael ei ariannu gan un o adrannau Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig bod adran arall yn edrych ar yr elfen cynllunio, neu, fel arall, yr un bobl sy'n penderfynu ar y gwaith cynllunio a'r prosiect, ac nid yw hynny'n gyfreithiol bosibl. Felly, mae'n bwysig bod yr ochr reoleiddio ar wahân i ochr yr economi. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, byddwn yn disgwyl i'r Gweinidog Busnes, Menter a Thechnoleg gysylltu'n rheolaidd â Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy er mwyn sicrhau bod y fframwaith cynllunio cyffredinol yng Nghymru yn briodol er mwyn sicrhau bod datblygiad economaidd yn cael ei gyflawni'n effeithlon heb fod adrannau yn trafod materion cynllunio penodol, a fydd yn cael eu penderfynu mewn modd lled-farnwrol gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy.

**Nick Ramsay:** I congratulate you on your appointment as First Minister, and I also congratulate each Minister on the front bench. I would especially like to congratulate Alun Davies, your Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes. I am pleased that you have finally heeded the calls that we have made over the past four years for him to be given a job. You have even been gracious enough to bring him forward a row. I see that he is still not quite at the front; he is a safe distance away, but I am sure that he will do his best as a member of your team.

**Nick Ramsay:** Rwy'n eich llongyfarch ar eich penodiad fel Prif Weinidog, ac rwyf hefyd yn llongyfarch pob Gweinidog ar y fainc flaen. Yn arbennig, hoffwn longyfarch Alun Davies, eich Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd. Rwy'n falch eich bod, o'r diwedd, wedi gwrando ar y galwadau a wnaethpwyd gennym dros y pedair blynedd diwethaf iddo gael swydd. Rydych hyd yn oed wedi bod yn ddigon cwrtais i'w symud ymlaen un rhes. Gwelaf nad ydyw eto yn y blaen; mae'n bellter diogel i ffwrdd, ond rwy'n sicr y bydd yn gwneud ei orau fel aelod o'ch tîm.

I also welcome the appointment of Jane Hutt, my opposite number, in the role of Minister for Finance and Leader of the House. To go back to some of the comments that you made about working with the United Kingdom Government, I am sure you will agree that we have, for the first time, under the current UK coalition Government, a commitment to look at the Barnett formula and at the amount of money that Wales receives. While recognising that changes cannot be made

Rwyf hefyd yn croesawu penodiad Jane Hutt, fy nghyfatebydd, i rôl y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ. I fynd yn ôl at rai o'r sylwadau a wnaethoch am weithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, rwy'n siŵr y cytunwch fod gennym, am y tro cyntaf, o dan Lywodraeth glymbleidiol bresennol y DU, ymrwymiad i edrych ar fformiwla Barnett ac ar y swm o arian y mae Cymru yn ei dderbyn. Wrth gydnabod na all newidiadau gael eu gwneud dros nos, mae cynnig wedi dod

overnight, that offer is there and I hope that the Government acts on its word—and I have spoken to the Minister about this—to ensure that Wales gets the best possible deal that it can under this Government, because it did not get that for a decade under the previous UK Government.

gerbron a gobeithiaf y bydd y Llywodraeth yn gweithredu ar ei gair—ac rwyf wedi siarad â'r Gweinidog am y mater hwn—er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael y fargen orau posibl o dan y Llywodraeth hon, gan na chafodd hynny am ddegawd o dan Lywodraeth flaenorol y DU.

The issue of rural affairs has been mentioned. I represent a largely rural constituency, as do other Members, and there is real concern—the personality appointed aside—that that role has been downgraded. When you consider the nature of rural affairs and the nature of Wales, which is largely a rural country in terms of its area, we are very disappointed to see that. Will you give us an assurance that you will do what you can within the current Cabinet structure to ensure that the interests of rural Wales are given the attention they deserve?

Mae materion gwledig wedi cael eu crybwyll. Fel Aelodau eraill, rwy'n cynrychioli etholaeth sydd, i raddau helaeth, yn un wledig, ac mae pryder gwirioneddol—os rhown y bersonoliaeth a benodwyd o'r neilltu—bod y rôl wedi cael ei israddio. Pan ystyriwch natur materion gwledig a natur Cymru, sydd, i raddau helaeth, yn wledig, rydym yn siomedig iawn o weld hynny. A wnewch roi sicrwydd inni y byddwch yn gwneud yr hyn y gallwch o fewn y strwythur Cabinet presennol i sicrhau bod buddiannau Cymru wledig yn cael y sylw y maent yn ei haeddu?

Ieuan Wyn Jones mentioned delivery, which should, of course, be key. I welcome the fact that you are making efforts with your new delivery unit. We would hope that the Assembly Government itself would be a delivery unit, but in the absence of that hope, having a unit that focuses on delivery will hopefully achieve something. Please do not let it become a propaganda unit; let us make sure that that delivery unit deals with the problems that beleaguered the previous Plaid/Labour Government over the last four years. There have been times in the past when delivery has not happened.

Bu i Ieuan Wyn Jones grybwyll cyflawni, a ddylai, wrth gwrs, fod yn allweddol. Croesawaf y ffaith eich bod yn gwneud ymdrech gyda'ch uned gyflawni newydd. Byddem yn gobeithio y byddai Llywodraeth y Cynulliad ei hunan yn uned gyflawni, ond yn absenoldeb y gobaith hwnnw, gobeithiwn y bydd cael uned sy'n canolbwyntio ar gyflawni yn cyflawni rhywbeth. Peidiwch â gadael iddo ddod yn uned bropaganda; gadewch inni sicrhau fod yr uned gyflawni honno yn delio â'r problemau a oedd yn warchae ar y Llywodraeth Plaid/Llafur blaenorol dros y pedair blynedd diwethaf. Cafwyd adegau yn y gorffennol pan na chafwyd cyflawni.

Finally, First Minister, please will you reconsider your decision to take £1 billion out of the health budget over the next few years? You said that we promised that we would increase the health budget; we did not make any promise to increase it by £1 billion, but we said that we would safeguard it at the current level, protect it and not take out the amount of money that you are proposing. Will you please reconsider that decision because people out there want a health service of which they can be proud?

Yn olaf, Brif Weinidog, a wnewch chi ailystyried eich penderfyniad i gymryd £1 biliwn allan o'r gyllideb iechyd dros y blynyddoedd nesaf? Dywedasoch ein bod wedi addo y byddem yn cynyddu'r gyllideb iechyd; ni wnaethom addewid i'w chynyddu o £1 biliwn, ond dywedasom y byddem yn ei diogelu ar y lefel bresennol, ei gwarchod ac nid cymryd allan y swm o arian yr ydych yn ei gynnig. A wnewch chi ailystyried y penderfyniad hwnnw oherwydd y mae pobl eisiau gwasanaeth iechyd y gallant fod yn falch ohono?

**The First Minister:** It will be entertaining for the rest of us, over the course of the next few weeks, to sit as passive observers of the Conservative Party's leadership contest, and we have seen the opening salvos there. Nick says that the proposal from the Welsh Conservatives was not to add £1 billion to the health budget but to not remove it. However, the whole point is that, according to your calculations, you have to add it in order to keep pace with inflation, so the £1 billion has to come from somewhere. Therefore, you are more confused now—as were the people of Wales at the time the election.

**Y Prif Weinidog:** Bydd yn cynnig adloniant i'r gweddill ohonom, yn ystod yr wythnosau nesaf, i eistedd a gwylio cystadleuaeth arweinyddiaeth y Blaid Geidwadol, ac rydym newydd weld dechrau'r frwydr. Mae Nick yn dweud nad ychwanegu £1 biliwn i gyllideb iechyd oedd y cynnig gan y Ceidwadwyr Cymreig, ond i beidio â'i dynnu yn ôl. Fodd bynnag, y pwynt yw, yn ôl eich cyfrifiadau, mae'n rhaid ichi ei ychwanegu er mwyn cadw i fyny â chwyddiant, felly mae'n rhaid i'r £1 biliwn ddod o rywle. Felly, rydych yn fwy dryslyd yn awr—fel yr oedd pobl Cymru ar adeg yr etholiad.

I welcome Nick's suggestion that the UK Government will commit to Barnett reform. It is the first that we have heard of it. Certainly, if that is the view of the UK Government, we welcome it very much, because it has been made very clear by the UK Government—and certainly by Danny Alexander, the Chief Secretary to the Treasury—that that is not what the UK Government has committed itself to. The UK Government has committed itself to what it has described as a Calman-style process for Wales. We will engage with that with an open mind, and we look forward to seeing the detail of that Calman-style process. If it does contain a commitment to reform Barnett, we will welcome that very much.

Rwy'n croesawu awgrym Nick y bydd Llywodraeth y DU yn ymrwymo i ddiwygio Barnett. Dyma'r tro cyntaf yr ydym wedi clywed hyn. Yn sicr, os mai dyna yw barn Llywodraeth y DU, rydym yn ei chroesawu'n fawr iawn, oherwydd gwnaethpwyd yn glir iawn gan Lywodraeth y DU—yn sicr gan Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys—nad dyna'r hyn y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i'w wneud. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i'r hyn a ddisgrifir ganddi fel proses yn debyg i Calman ar gyfer Cymru. Byddwn yn ymgysylltu â hynny gyda meddwl agored, ac edrychwn ymlaen at weld y manylion am y broses hynny. Os yw'n cynnwys ymrwymiad i ddiwygio Barnett, byddwn yn croesawu hynny'n fawr iawn.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, I thank you for your warm statement to the Chamber and congratulate you on your election and your fellow Ministers on their appointment. As a new Member, I am honoured to have been given the rural affairs portfolio for the Conservative group. At the outset, I wish to say that I look forward to scrutinising your Government's programme in a robust, fair and constructive way. However, I am disappointed that you have not given the rural affairs brief a full ministerial position as has been the case in the past. Many more experienced voices than mine in the Chamber have expressed their concern that, instead, you have sought to split the role and the voice of rural Wales. As someone who was a Minister responsible for this portfolio in the past, you will be aware that rural affairs are about more than agriculture. Even within my North Wales region, from Ynys Môn to

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, diolch ichi am eich datganiad cynnes i'r Siambr ac yr wyf yn eich llongyfarch ar eich etholiad a'ch cyd-Weinidogion ar eu penodiad. Fel Aelod newydd, mae gennyf yr anrhydedd o fod yn gyfrifol am y portffolio materion gwledig ar gyfer y grŵp Ceidwadol. Ar y cychwyn, hoffwn ddweud fy mod yn edrych ymlaen at graffu ar raglen eich Llywodraeth yn gadarn, yn deg ac yn adeiladol. Fodd bynnag, yr wyf yn siomedig nad ydych wedi creu swydd weinidogol llawn ar gyfer materion gwledig, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae lleisiau llawer mwy profiadol na mi yn y Siambr wedi mynegi eu pryder am y ffaith eich bod wedi ceisio rhannu'r rôl a llais cefn gwlad Cymru. Fel rhywun a oedd yn Weinidog â chyfrifoldeb am y portffolio hwn yn y gorffennol, byddwch yn ymwybodol bod materion gwledig yn ymwneud â mwy nag

Gwynedd, Conwy, Denbighshire, Flintshire and Wrexham, rural affairs will touch on a range of issues affecting the economy, access to services and the social fabric of these communities. As I said, I look forward to scrutinising your Government in a fair and constructive way to ensure that the voice of rural Wales is heard in the Assembly. I would be grateful if you could explain why you have taken this decision.

amaethyddiaeth. Hyd yn oed o fewn fy rhanbarth i, Gogledd Cymru, o Ynys Môn i Wynedd, Conwy, sir Ddinbych, sir y Fflint a Wrecsam, bydd materion gwledig yn ymwneud ag ystod o faterion sy’n effeithio ar yr economi, mynediad at wasanaethau a gwead cymdeithasol y cymunedau hyn. Fel y dywedais, edrychaf ymlaen at graffu ar eich Llywodraeth mewn ffordd deg ac adeiladol er mwyn sicrhau bod llais cefn gwlad Cymru yn cael ei glywed yn y Cynulliad. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech esbonio pam eich bod wedi gwneud y penderfyniad hwn.

**The First Minister:** I welcome you to the Chamber following that, your maiden speech. The rural affairs portfolio is now represented by many Ministers and not just one because so many facets of rural affairs are represented in other departments. We know that there are many parts of Wales where there are pressures on schools because of falling numbers. That is an issue that affects rural areas not exclusively but more than urban areas. Should it therefore be the case that, somehow, rural schools should sit in a separate department from urban schools? This is clearly not the case. We know that there are issues with regard to the delivery of the health service in rural areas, particularly in relation to the distances that sometimes have to be travelled in order to get specialist treatment. Does it therefore follow that rural health should sit in a separate department to urban health? Clearly not. From our point of view, what is important is that rural Wales is understood and recognised.

**Y Prif Weinidog:** Rwy’n eich croesawu i’r Siambr ar ôl eich araith gyntaf. Erbyn hyn, mae’r portffolio materion gwledig yn cael ei gynrychioli gan nifer o Weinidogion ac nid un yn unig oherwydd bod cynifer o agweddau o faterion gwledig yn cael eu cynrychioli mewn adrannau eraill. Gwn fod sawl rhan o Gymru lle mae pwysau ar ysgolion oherwydd bod niferoedd yn gostwng. Er nad yw hynny’n fater sy’n effeithio ar ardaloedd gwledig yn unig, mae’n eu heffeithio yn fwy nag ardaloedd trefol. A ddylai ysgolion gwledig, felly, fod mewn adran wahanol i ysgolion trefol? Mae’n amlwg na ddylai. Gwn fod materion yn ymwneud â darparu gwasanaeth iechyd mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig o ran y pellteroedd y mae’n rhaid eu teithio weithiau er mwyn cael triniaeth arbenigol. A yw’n dilyn, felly, y dylai iechyd gwledig fod mewn adran wahanol i iechyd trefol? Mae’n amlwg na ddylai. O’n safbwynt ni, yr hyn sy’n bwysig yw bod y Gymru wledig yn cael ei deall a’i chydnabod.

We recognise that there are issues with regard to rural economic development that are different or unique. Those will be taken into account by the new department, with Edwina Hart and Alun Davies. I do not believe that rural affairs have been downgraded. I think that rural affairs have been mainstreamed. It is important that the rural economy, the rural health service and rural schools are taken seriously. That is why they are part of mainstream departments. However, I also recognise that farming, to give one example—and, of course, farming is not all of rural affairs—occupies a special place in the minds of the people of Wales,

Rydym yn cydnabod bod problemau o ran datblygiad economaidd gwledig sy’n wahanol neu’n unigryw. Bydd y rheini yn cael eu hystyried gan yr adran newydd, gydag Edwina Hart ac Alun Davies. Nid wyf yn credu bod materion gwledig wedi cael eu hisraddio. Credaf fod materion gwledig wedi cael eu prif ffrydio. Mae’n bwysig bod yr economi wledig, y gwasanaeth iechyd gwledig ac ysgolion gwledig yn cael eu cymryd o ddifrif. Dyna pam maent yn rhan o adrannau prif ffrwd. Fodd bynnag, yr wyf hefyd yn cydnabod bod ffermio, i roi un enghraifft—ac, wrth gwrs, nid dim ond ffermio yw materion gwledig—yn

particularly in rural Wales. That is why farming has, for the first time in some years, been included in the title of a Minister—a Deputy Minister whom I have no doubt will be a very fine representative when it comes to marketing Welsh food and supporting Welsh farmers.

meddiannu lle arbennig ym meddyliau pobl Cymru, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru. Dyna pam mae ffermio, am y tro cyntaf mewn rhai blynyddoedd, wedi cael ei gynnwys yn nheitl y Gweinidog—Dirprwy Weinidog fydd, heb amheuaeth, yn gynrychiolydd gwych o ran marchnata bwyd o Gymru a chefnogi ffermwyr Cymru.

## Cynnig i Benodi'r Pwyllgor Busnes
## Motion to Appoint the Business Committee

Cynnig NNDM4719 Jane Hutt

Motion NNDM4719 Jane Hutt

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol a Rheol Sefydlog 11.3:*

*To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 11.3:*

*Yn penodi'r Llywydd, Jane Hutt (Llafur), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Nick Ramsay (Ceidwadwyr) a Peter Black (Democratiaid Rhyddfrydol) yn aelodau o'r Pwyllgor Busnes.*

*Appoints the Presiding Officer, Jane Hutt (Labour), Jocelyn Davies (Plaid Cymru), Nick Ramsay (Conservative) and Peter Black (Liberal Democrat) as members of the Business Committee.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

**The Presiding Officer:** I see that there are no speakers for this item and the Minister does not wish to speak further. The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

**Y Llywydd:** Gwelaf nad oes siaradwyr ar gyfer yr eitem hon ac nid yw'r Gweinidog yn dymuno siarad eto. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

## Cynnig i Gymeradwyo Busnes y Cyfarfod Llawn ar gyfer Dydd Mercher, 25 Mai 2011
## Motion to Approve Plenary Business on Wednesday, 25 May 2011

Cynnig NNDM4719 Jane Hutt

Motion NNDM4718 Jane Hutt

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu o dan Rheol Sefydlog 12.10 (ii), i ganiatáu cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ddydd Mercher 25 Mai 2011.*

*To propose that the National Assembly resolves under Standing Order 12.10 (ii), to bring forward questions to the First Minister on Wednesday 25 May 2011.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

**The Presiding Officer:** Do any Members wish to speak? I see that there are no

**Y Llywydd:** A hoffai unrhyw Aelod siarad? Gwelaf nad oes siaradwyr. Y cwestiwn yw a

speakers. The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare the motion agreed.

ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, derbynnir y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*
*Motion agreed.*

**The Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close. Diolch yn fawr.

**Y Llywydd:** Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw. Diolch yn fawr.

*Daeth y cyfarfod i ben am 2.40 p.m.*
*The meeting ended at 2.40 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)